



Gwasanaeth Tân Ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Assesiad Perfformiad Blynyddol 2017/2018

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol	4
Ein Hymrwymiad i Wella	5-15
Ein Hamcanion Gwella	16-52
Rhagor o wybodaeth	53-54
Atodiad 1	
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Datganiad Cynnydd	55-56

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer **2017-2018**.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r modd yr ydym wedi perfformio o gymharu â'r Amcanion Gwella a bennwyd gennym yn ein Cynllun Gwella Blynyddol ar gyfer 2017-18.

Does dim amheuaeth ein bod yn Wasanaeth sy'n perfformio ar lefel uchel, ac rydym yn hynod o falch o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod 2017-18. Ein gweledigaeth yw "Bod yn arweinydd byd o ran Ymateb i Argyfyngau a Diogelwch Cymunedol", ac, yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi rhoi cynnig ar ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu ein gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor, ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i ymgysylltu â'n cymunedau, gan archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gweithio gyda'n partneriaid i ddiogelu ein cymunedau. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein Hamcanion Gwella yn cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac o fewn y gyllideb, a hynny wrth i ni barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr un pryd.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meysydd hynny lle y defnyddiwyd arloesedd i wella ein gwasanaethau, a hefyd yn amlygu meysydd lle y mae angen i ni barhau i ganolbwyntio ein hymdrechion.



Chris Davies
Prif Swyddog Tân



Y Cyngorydd Rowland Rees-Evans
Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol

Erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi ein Hasesiad Perfformiad Blynyddol, sy'n adrodd am gynnydd o gymharu â'n Hamcanion Gwella ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Rydym yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn gofalu bod ein cymunedau, ein staff a'n rhanddeiliaid yn deall y ffordd y byddwn yn asesu ein cyflawniadau ac yn adrodd arnynt. Yn ein Hasesiad Perfformiad drwyddo draw, byddwn yn dweud wrthyich sut y bu i ni gyflawni o gymharu â'r hyn yr oeddem wedi cynllunio i'w wneud yn 2017-2018.

Mae'r Asesiad Perfformiad hefyd yn gyfle i ni nodi pa wersi yr ydym wedi'u dysgu, a'r modd y byddwn yn eu cynnwys yn ein prosesau cynllunio a gwella yn y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i'n Cynllun Corfforaethol, ein Cynlluniau Gwella Blynyddol a'n Hasesiadau Perfformiad Blynyddol ar ein gwefan yn www.mawwfire.gov.uk.

Ein Hymrwymiad i Wella


Fel Gwasanaeth Cyhoeddus, gwyddom fod gennym ddyletswydd i barhau i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio ac yn cyflawni ein gwasanaethau. Bu 2017-18 yn flwyddyn heriol iawn ar gyfer y Gwasanaeth, oherwydd rheoliadau cynyddol a chyllidebau ariannol llai. Mae ein Blaenoriaethau Strategol pum mlynedd, sy'n cynnwys Cydweithredu, Arloesi, Darparu Gwell Gwasanaeth, Grymuso ein Staff, Gwneud Gwell Defnydd o'n Hasedau a'n Hadnoddau, Cynaliadwyedd, a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ein cymunedau, a hynny'n barhaus.

DANGOSYDDION


Mae'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar ein dangosyddion perfformiad statudol a sector. Mae'r tabl a'r graff canlynol yn rhoi trosolwg o'n perfformiad o gymharu â'r dangosyddion statudol a sector hynny ar gyfer 2017-2018.

Digwyddiad	2017-2018	2016-2017	2015-2016	2014-2015	2013-2014	2012-2013	2011-2012
Tanau	3190	2933	3392	3491	3916	3245	4522
Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd	983	997	1081	1009	1133	1101	1004
Galwadau Tân Diangen	4939	4889	4599	4464	4520	4521	4553
Galwadau cydymateb	2546	3765	2532	2303	1914	1677	718
Galwadau Gwasanaeth Arbennig nad ydynt yn cynnwys galwadau Cydymatebydd a Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd	2122	1962	1957	1650	2346	2182	1700
Cyfanswm	13780	14546	13561	12917	13829	12726	12497

Digwyddiadau yr Ymatebwyd Iddynt yn 2017-18, ar ffurf canrannau



Digwyddiadau yr Ymatebwyd Iddynt, yn ôl y flwyddyn a'r math



Flwyddyn	2017/2018	2016/2017	2015/2016	2014/2015	2013/2014	2012/2013	2011/2012
Tanau	3190	2933	3392	3491	3916	3245	4522
Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd	983	997	1081	1009	1133	1101	1004
Galwadau Tân Diangen	4939	4889	4599	4464	4520	4521	4553
Galwadau Gwasanaeth Arbennig nad ydynt yn cynnwys galwadau Cyd-ymatebydd a Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd	2122	1962	1957	1650	2346	2182	1700
Galwadau Cyd-ymatebydd	2546	3765	2532	2303	1914	1677	718

Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2017-2018

Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad o ran y meysydd penodol Lleihau Risgiau, Diogelwch Cymunedol, Iechyd y Gweithlu ac Iechyd Ariannol.

Isod, gwelir manylion ein Dangosyddion Perfformiad Sector ar gyfer 2017-2018.

Dangosydd Perfformiad	2017-2018 Gwirioneddol	Cyfartaledd 2007-08 i 2011-12	Cyfartaledd 2012-13 i 2016-17	Cyfartaledd 2013-14 i 2017-18	% Gostyngiad Cyfartalog 2012-13 i 2017-18
Cyfanswm nifer yr holl danau bwriadol yr ymatebwyd iddynt, fesul 10,000 o anheddau	1532	3184	1544	1552	0.5% ↑
Cyfanswm nifer yr holl danau damweinio l yr ymatebwyd iddynt, fesul 10,000 o anheddau	1682	1966	1677	1733	3.3% ↑
Cyfanswm nifer yr holl danau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt, fesul 10,000 o anheddau	566	678	603	604	0.2% ↑

Cyfanswm nifer yr holl danau damweiniol mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt, fesul 10,000 o anheddau	533	305	561	563	0.4% ↑
Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau, fesul 10,000 o anheddau	33	72	42	41	-2.4% ↓
Cyfanswm nifer y tanau mewn adeiladau annomestig, fesul 1,000 o adeiladau annomestig	219	331	221	221	0.0%
Cyfanswm nifer y marwolaethau oherwydd tân, fesul 100,000 o'r boblogaeth	11	8	6	8	33.3% ↑
Marwolaethau oherwydd tanau a gyneuodd yn ddamweiniol mewn anheddau, fesul 100,000 o'r boblogaeth	38	75	64	60	-6.3% ↓
Marwolaethau oherwydd tanau a gyneuwyd yn fwriadol mewn anheddau,	8	5	5	6	20.0%

fesul 100,000 o'r boblogaeth					

Cyfanswm nifer yr anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau, fesul 100,000 o'r boblogaeth	2016-2017 Swirionedd	Cyfartaledd 2006-07 i 2010-2011	Cyfartaledd 2011-12 i 2015-16	Cyfartaledd 2012-13 i 2016-17	0.0% Gostyngiad Cyfartalog 2011-12 i 2016-17
Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a gyneuodd yn ddamweiniol mewn anheddau, fesul 100,000 o'r boblogaeth	34	51	43	41	-4.7%
Anafiadau (ac eithrio archwiliadau rhagofalus) a ddeilliodd o danau a gyneuwyd yn fwriadol mewn anheddau, fesul 100,000 o'r boblogaeth	3	6	5	5	0.0%

Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan systemau synhwyro tân awtomatig, fesul 1,000 o adeiladau annomestig	1512	1325	1574	1540	-2.2%
Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan systemau synhwyro tân awtomatig, fesul 1,000 o adeiladau domestig	1381	1325	1570	1558	-0.8%
Tanau mewn anheddau yr ymatebwyd iddynt lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod, fel % o'r holl danau mewn anheddau yr aethpwyd iddynt	42.05%	38.64%	35.01%	37.00%	5.7%

Ein Perfformiad o gymharu â'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Mae lleihau nifer y tanau mewn anheddau, yn ogystal â lleihau difrifoldeb y tanau hynny, yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Adlewyrchir ein llwyddiant o ran cyflawni hyn yn eglur yn y gostyngiad cyson yn nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru nod cyffredin o gynnal tuedd hirdymor ar i lawr o ran y canlynol:

- nifer yr achosion o danau mewn anheddau
- nifer yr unigolion a anafir o ganlyniad i danau mewn anheddau
- nifer yr anafiadau difrifol i bersonél y gwasanaeth tân sy'n ymladd tanau mewn anheddau

Mae'r Siarter yn cynnwys saith ymrwymiad unigol a wnaed gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i aelodau'r cyhoedd, fel a ganlyn:

1. Arwain o ran lleihau nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd, ac o ran lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac mewn modd effeithlon bob tro y cawn alwad 999 i fynd i dân mewn annedd.
3. Mynd i danau mewn anheddau yn gyflym, a sicrhau bod y cyfarpar cywir ar gael i ni ddelio â'r tanau hynny.
4. Delio â thanau mewn modd effeithiol, effeithlon a phroffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, a dal y bobl berthnasol i gyfrif, pan fo hynny'n briodol.
7. Cynnal safonau uchel, a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan i'w gweld ar ein gwefan www.mawwfire.gov.uk

Rydym wedi adolygu ein perfformiad mewn perthynas ag ymrwymïadau'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau, a dyma'r canlyniadau:-

Ymrwymiad 1

Byddwn yn arwain o ran lleihau nifer y tanau sy'n digwydd mewn anheddau ac o ran lleihau eu heffaith ar bobl.

Rydym wedi ymrwymo i arwain o ran cynnal tuedd ar i lawr yn achos nifer y tanau mewn anheddau yng Nghymru, yn ogystal â'r anafusion cysylltiedig.

Yn 2017-2018, aethom ati i roi cyngor ac anogaeth i bobl o ran sut y gallant atal tanau rhag dechrau yn eu cartref, a sut i gadw'n ddiogel rhag tân. Roedd ein gweithgaredd atal yn cynnwys cynnig Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref

i ddeiliaid tai, a rhoi cyflwyniad ar ddiogelwch rhag tân i blant a phobl ifanc ar gamau allweddol.

Yn ystod 2017-2018 roeddem yn bresennol mewn **534** o danau damweiniol mewn anheddau, a arweiniodd at farwolaeth **8** o bobl, yn ogystal â **34** yn rhagor o bobl yn cael eu hanafu (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhagofalus).

Yn ystod 2017-2018 hefyd roeddem yn bresennol mewn **33** o danau a gyneuwyd yn fwriadol mewn anheddau. Ni chafodd neb ei ladd, ond anafwyd **3** o bobl (ac eithrio cymorth cyntaf yn y lleoliad ac archwiliadau rhagofalus).

Mae'r duedd o ran tanau mewn anheddau yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystod y pump i ddeng mlynedd diwethaf yn amlygu gostyngiad graddol (ac eithrio 2009-2010 a 2012-2013).

Mae'r duedd o ran nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tanau mewn anheddau yn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf hefyd yn amlygu gostyngiad graddol.

Ymrwymiad 2:

Byddwn yn ymateb yn gyflym ac mewn modd effeithlon bob tro y cawn alwad 999 i fynd i dân mewn annedd

Rydym wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac mewn modd effeithlon pan fydd galwadau 999 brys yn cael eu trosglwyddo i ni gan y gweithredydd.

Mae ein cyfleuster rheoli tanau brys ar gael bob awr o'r dydd, bob diwrnod o'r flwyddyn, ac mae trefniadau arbennig ar waith er mwyn trosglwyddo galwadau yn ddidrafferth o un cyfleuster rheoli i'r llall yn achos amhariad difrifol neu gynnydd sydyn yn nifer y galwadau sy'n cyrraedd ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad dan sylw a b) anfon yr adnoddau mwyaf addas sydd ar gael i'r digwyddiad.

Yn 2017-2018, roeddem wedi delio â **23,073** o alwadau 999 brys.

Mae gwybod lle y mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol er mwyn cael gwybodaeth gan unigolion a allai fod, er enghraifft, yn anghyfarwydd â'r ardal, yn ofnus neu'n ofidus, neu'n ifanc iawn, neu a allai fod ag anawsterau cyfathrebu neu o ran iaith.

Sgîl pwysig arall yw gwybod pryd y mae galwr yn cam-drin y system 999 trwy honni ar gam fod argyfwng yn rhywle pan nad oes yna argyfwng mewn gwirionedd. Mae'n drosedd mynd ati'n bwrpasol i wneud galwadau ffug i'r gwasanaethau brys. Yn anffodus, nid yw hynny fel petai'n atal nifer bach o bobl, sy'n tagu'r llinellau 999 ac yn dargyfeirio gwasanaethau i ffwrdd oddi wrth bobl a all fod mewn sefyllfa lle mae eu bywyd mewn perygl. Bob tro y byddwn yn ymateb i un o'r galwadau diangen maleisus hyn, bydd amser ac arian yn cael eu gwastraffu, a bydd gweddill y gymuned yn cael ei roi mewn mwy o berygl.

Mewn 22% o achosion, roeddem wedi gallu sefydlu nad oedd y galwadau hyn yn rhai dilys, ac felly wedi osgoi paratoi adnoddau yn ddiangen i fod yn bresennol.

Ymrwymiad 3:

Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym, a bydd y cyfarpar cywir ar gael i ni ddelio â'r tanau hynny

Pan fyddwn wedi ateb y galwad 999 brys a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol ar gyfer ein presenoldeb cychwynnol yn y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym ac yn ddiogel, a sicrhau bod gennym y cyfarpar cywir i ddelio â'r sefyllfa.

Yn 2017-2018, bu i ni ymateb i **17%** o danau mewn anheddau o fewn **1-5** munud, **49%** o fewn **5-10** munud, **18%** o fewn **10-15** munud, a **7%** ar ôl **15** munud. Mae'r amserau hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i'r personél gyrraedd yr orsaf dân, yn ogystal â'r amser teithio, felly gall nifer o bethau effeithio ar gyflymder y ffigurau ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur y rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn bwysig dros ben, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag cynnau yn y lle cyntaf, a chael o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio, yn ogystal â llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw, rhag ofn y bydd tân yn cynnau. Fodd bynnag, os bydd tân yn cynnau mewn annedd, byddwn yn sicrhau bod gan ein criwiau tân y cyfarpar cywir i ddelio â'r tân.

Rydym yn gofalu bod gan ein diffoddwyr tân offer diogelwch personol a chyfarpar diffodd tân o ansawdd uchel. Mae'n ofynnol gennym eu bod yn ffit ac yn iach yn weithredol, a sicrhau fod eu sgiliau yn cael eu profi a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydym hefyd yn gwirio'n rheolaidd fod y modd y bu i'r criwiau ddelio â digwyddiadau yn unol â'r gweithdrefnau diffodd tân a dderbynnir.

Rydym yn cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei gyflawni. Yn 2017-2018, roedd ein criwiau yn bresennol mewn **3,246** o danau, a hynny mewn amrywiaeth o adeiladau a lleoliadau awyr agored gwahanol. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd **21** o staff gweithredol eu hanafu. Yn anaml y bydd diffoddwyr tân yn cael eu hanafu – ymhlith y cyfanswm uchod, cafodd **un** ei ddosbarthu'n anaf 'difrifol' yn ôl y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Ymrwymiad 4:

Byddwn yn delio â thanau mewn modd effeithiol, effeithlon a phroffesiynol

Rydym wedi ymrwymo i ddelio â thanau mewn modd effeithiol, effeithlon a phroffesiynol. I'r perwyl hwn, rydym yn arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfarpar diffodd tân cywir, yn ogystal â'r cymorth cywir o ran yr ardal reoli, a hynny er mwyn sicrhau y byddant wedi'u paratoi'n iawn i ddelio ag amgylchiadau'r tân mewn annedd, ni waeth beth fo'r amgylchiadau hynny.

Yn 2017-2018, ymhlith yr holl danau damweiniol mewn anheddau y buom yn bresennol ynddynt, cafodd **475** eu cadw yn yr ystafell lle y cyneusant, heb ledaenu

ymhellach. Er y gallai nifer o ffactorau effeithio ar yr ystadegyn hwn, a fyddai y tu hwnt i reolaeth y criwiau sy'n bresennol (er enghraifft, yr amser a aeth heibio cyn i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, p'un a oedd y drysau mewnol wedi'u cau ai peidio, er mwyn helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell o'r orsaf dân yr oedd yr annedd), ystyriwn fod hyn o hyd yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant wrth ddiffodd tanau.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau i gyfarpar, ac yn gofalu ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech o ran cadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf. Yn ystod 2017-18, roeddem wedi parhau i archwilio nifer o dechnegau newydd ar gyfer diffodd tanau.

Ymrwymiad 5:

Byddwn yn helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn anheddau

Rydym wedi ymrwymo i helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn sgil tanau mewn anheddau.

Gall tân yn y cartref beri i bobl deimlo'n hynod o agored i niwed. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, byd arnynt angen cymorth ymarferol yn ogystal â chymorth emosiynol. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd mewn tân, gall y profiad effeithio ar gymunedau cyfan, yn ogystal â'r unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agos.

Oherwydd hyn, nid yw rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub o ran cefnogi cymunedau yn dod i ben pan fydd y tân wedi cael ei ddiffodd a phan fydd cyfrif wedi'i rhoi am bawb.

Ym mhob achos, archwilir i achos y tân, a gwneir cofnod gofalus ohono. Bydd pob manylyn o ran y modd y cyneuoedd y tân a lle, pa mor bell y bu iddo ledaenu, unrhyw amgylchiadau arbennig, ac unrhyw ffactorau a gyfrannodd at y tân, yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell ar gyfer dysgu, ymchwilio a monitro yn y dyfodol.

Os bydd unrhyw reswm i gredu bod y tân wedi cael ei gynnau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, yna eir ar drywydd hyn gan yr Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill.

Mewn rhai adeiladau, er enghraifft blociau o fflatiau neu dai lle mae nifer o denantiaid gwahanol yn byw, gallai'r ymchwiliad ar ôl y digwyddiad ddynodi bod y landlord wedi methu sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch rhag tân. Yna, gallai ein hymchwilyr tanau arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi cynnau'n ddamweiniol, byddwn yn cynnal rhyw fath o weithgarwch neu ymgyrch Diogelwch yn y Gymuned yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a thawelwch meddwl ar ffurf Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref am ddim.

Ymrwymiad 6:

Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif, pan fo hynny'n briodol

Rydym bob tro yn ymchwilio i achos tanau mewn anheddau. Mewn nifer o achosion, bydd achos a tharddiad y tân yn amlwg ac yn syml iawn, ond mewn achosion eraill bydd angen cynnal ymchwiliad ffrensig manylach er mwyn canfod achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bach o achosion y bydd yr achos yn 'anhysbys'. Yn 2017-2018, cofnodwyd bod achosion **10** o danau mewn anheddau yn anhysbys.

Os amheuir bod trosedd wedi cael ei chyflawni, bydd yr ymchwiliad i'r tân yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Heddlu. Mae pobl yr amheuir iddynt gynnu tân mewn annedd yn fwriadol yn debygol o gael eu herlyn, er nad dyma'r unig gam gweithredu mewn rhai achosion – er enghraifft, os cafodd y tân ei gynnu gan blentyn ifanc neu rywun a oedd yn ceisio ei ladd ei hun.

Yn 2017-2018, roeddem wedi bod yn bresennol mewn **566** o danau mewn anheddau, a darganfuwyd bod **33** ohonynt wedi cael eu cynnu'n fwriadol.

Mewn rhai adeiladau preswyl, er enghraifft fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae rheoliadau mewn grym yn yr ardaloedd cyffredinol neu'r ardaloedd a rennir, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am yr adeiladau hynny (er enghraifft y landlord neu reolwr yr adeilad) sicrhau bod trefniadau diogelwch rhag tân da ar waith. Gall methu sicrhau hyn arwain at gau'r adeilad, a gallai'r unigolyn sy'n gyfrifol gael ei erlyn a gorfod wynebu carchar a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

A ninnau'n awdurdod gorfodi, rydym yn sicrhau bod unigolion cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon, a gallwn ddethol o blith amrywiaeth o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y tor cyfraith a'r risg sy'n deillio ohono. Yn 2017-2018, roeddem wedi cyflwyno **10** o Hysbysiadau Gorfodi, **13** o Hysbysiadau Gwahardd, a **0** Rhybudd Ffurfiol mewn perthynas â thanau mewn anheddau.

Ymrwymiad 7:

Byddwn yn anelu at gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn

Rydym bob amser yn anelu at gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn. O dan ddeddfwriaeth, dosberthir Awdurdodau Tân ac Achub yn 'Awdurdodau Gwella Cymru', a disgwylir iddynt adolygu eu perfformiad yn rheolaidd, yn ogystal â'i wella'n barhaus, a hynny trwy broses ffurfiol.

Ein Hamcanion Gwella

Bob blwyddyn, yn rhan o'n proses gynllunio, rydym yn datblygu Amcanion Gwella a gynlluniwyd i'n helpu i gyflawni ein Blaenoriaethau Strategol. Dywed ein Hamcanion Gwella wrth ein staff, ein cymunedau a'r rhanddeiliaid pa fuddion y byddwn yn eu darparu ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod 2017-18, roeddem wedi nodi a datblygu 12 o Amcanion Gwella, a fyddai, yn ein barn ni, yn lleihau risgiau ac yn gwella diogelwch ein cymunedau. Roedd yr amcanion hynny fel a ganlyn:

Amcan 1 – Darparu ymyrraeth gyfannol o ran diogelwch yn y cartref ar gyfer y rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Amcan 2 – Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Amcan 3 – Cyflawni ein rhan ni o'r Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Amcan 4 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n rôl ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Amcan 5 – Cyfrannu at y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) ar ei newydd wedd, a'i roi ar waith.

Amcan 6 – Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad o Risgiau ac Aseiad Strategol y Gwasanaeth.

Amcan 7 – Adolygu a datblygu ein hymateb i achosion o lifogydd.

Amcan 8 – Cefnogi cynaliadwyedd economaidd yn ein cymuned fusnes.

Amcan 9 – Buddsoddi yn ein pobl.

Amcan 10 – Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau.

Amcan 11 – Digiddeiddio – defnyddio technoleg i arloesi, cydweithio a grymuso.

Amcan 12 – Gwella'r ffordd yr ydym yn datrys digwyddiadau gweithredol trwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd.

Amcan 1

Darparu ymyrraeth gyfannol o ran diogelwch yn y cartref ar gyfer y rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf yng nghymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru

<p>Rheswm</p>	<p>Dengys ein data fod yna ostyngiad hirdymor dilynol yn y tanau damweiniol mewn anheddau, sy'n dangos bod darparu cyngor, addysg a chyfarpar yn gallu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r bobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw.</p> <p>Rydym yn sicrhau ein bod yn cydweithio ag amrywiaeth o asiantaethau partner, sy'n ein galluogi i gyrraedd aelwydydd na fyddem yn gwybod amdanynt fel arall, nac yn gallu eu cyrraedd. Felly, bwriadwn ddefnyddio ein gwybodaeth am ddarparu cyngor a chymorth proffesiynol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl ar aelwydydd agored i niwed.</p> <p>Ein nod yw adeiladu ar y gwaith cydweithredol a wnaed eisoes i ehangu'r broses o ddarparu cyngor ac ymyrraeth y mae ein partneriaid yn awyddus i'w hyrwyddo, a hynny er mwyn gwella diogelwch ac iechyd ein cymunedau.</p> <p>Rydym am i'r cyngor a'r ymyrraeth y byddwn yn eu darparu i bobl fregus adlewyrchu dull cyfannol o ymdrin â diogelwch yn y gymuned. Bydd hyn yn golygu y bydd ein cymunedau yn fwy diogel ac yn iachach o ganlyniad i'n cyngor a'n hymyrraeth.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio ymyrraeth diogelwch yn y cartref arloesol, mwy cyfannol, a fyddai'n cael ei gyflwyno ledled y Gwasanaeth yn lle'r Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref traddodiadol. • Adolygu a gwerthuso'r gwelliant o ran ein gweithgarwch ymyrraeth gymunedol, a hynny gyda'n staff, ein partneriaid allanol, a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. • Ehangu rôl y Gwirfoddolwyr Diogelwch Cymunedol i gynnwys darparu cymorth lleol parhaus i'r unigolion hynny sydd wedi elwa ar ein hymyrraethau. • Ehangu'r hyfforddiant a ddarperir i'n hasiantaethau partner i gefnogi ein hymyrraethau diogelwch cymunedol.

<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwerthuso ansawdd yr ymyraethau a ddarparwn ar gyfer aelodau mwyaf bregus ein cymuned. • Monitro'r adborth a gawsom gan bartneriaid, staff a'r gymuned o ran manteision ein hymyraethau, a'r modd y maent yn lleihau risgiau. • Defnyddio ein data ein hun am Danau Damweiniol mewn Anheddau, a hefyd ddata partneriaid a data cenedlaethol, i fesur effaith hirdymor ein dull newydd o weithredu. <p>Trwy werthuso a mesur ansawdd ein gweithgareddau, rydym wedi sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel ac yn iachach o ganlyniad i'n cyngor a'n hymyraethau.</p>
--	---

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Aethom ati i fabwysiadu dull rhagweithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cysylltu cymaint â phosibl ag unigolion agored i niwed wrth ymweld â'u cartrefi. Rydym wedi gweithio'n agos iawn gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill, gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo negeseuon cyson o ran iechyd, diogelwch a lles.

Datblygwyd y model Pob Cyswllt yn Cyfrif ymhellach yn Ardal Reoli Powys, lle y buom yn gweithio gyda phartneriaid yn ardal Ystradgynlais. Crëwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer Aber-craf, sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am lithro, baglu a chwmpo; rhoi'r gorau i smygu; diogelwch yn y cartref a sgamio; ynghyd â phynciau a oedd yn berthnasol i'r ardal leol.

Cafodd y cyflwyniad hyfforddi Pob Cyswllt yn Cyfrif ei ddarparu ar gwrs recriwtio Diffoddwyr Tân a'i gyflwyno i bob Gorsaf Dân, gan alluogi i'r staff newydd gael eu trwytho'n llwyr yn ffordd gyfannol y gwasanaeth o ymdrin â Diogelwch yn y Cartref. Cynlluniwyd y pecyn i weithredu fel sylfaen gyffredin ledled ardal y Gwasanaeth. Roedd hyn yn galluogi i negeseuon lleol a llwybrau atgyfeirio ychwanegol gael eu datblygu. At hynny, aethom ati i fabwysiadu model hyfforddi'r hyfforddwyr, lle roedd timau Diogelwch Cymunedol yr Ardaloedd Rheoli yn cael eu hyfforddi i gyflwyno'r pecyn yn eu Hardaloedd Rheoli.

Yn Sir Gaerfyrddin, aeth grŵp llywio amlasiantaeth ar gyfer y prosiect Gwerth/Save ati i gynllunio rhaglen hyfforddi a gyflwynodd Pob Cyswllt yn Cyfrif i'r staff yn yr asiantaethau a oedd yn cymryd rhan. Roedd y dull yn cynnwys negeseuon a gafodd eu cynnwys yn hyfforddiant byr Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ymyraeth, gan alluogi staff y rheng flaen i gyfeirio unigolion at wybodaeth am iechyd, diogelwch a lles a oedd yn berthnasol i'w hanghenion.

Darparwyd y pecyn hyfforddi Pob Cyswllt yn Cyfrif i'n Tîm Diogelwch Cymunedol a'n Tîm Byw'n Ddiogel, yn lach ac yn Annibynnol yn Sir Gaerfyrddin, gan ein galluogi i asesu effaith yr hyfforddiant, ynghyd â'r modd y byddai'n dylanwadu ar ein hymagwedd ehangach o ran Pob Cyswllt yn Cyfrif. Defnyddiwyd dull tebyg yng Nghastell-nedd Port Talbot hefyd, gan weithio gydag is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, "Annog Heneiddio'n Dda", a gefnogwyd yn ardal Bae Abertawe gan ymchwilyr o Brifysgol Abertawe.

Buom yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe i ddatblygu cynllun peilot er mwyn defnyddio eu hymweliadau â chartrefi i nodi'r rheiny a oedd yn wynebu'r risg o fod yn unig ac yn ynysig, gan alluogi iddynt gael eu hatgyfeirio i'r gwasanaethau cymorth.

Hyfforddwyd asiantaethau partner i gynnal Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref, gan gynnwys canghennau Abertawe a Sir Benfro o'r Groes Goch Brydeinig, ac Age Connects Castell-nedd Port Talbot. Darparwyd yr hyfforddiant trwy ddefnyddio porth ar-lein, a oedd hefyd yn galluogi i'r Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref gael eu cyflwyno'n electronig, gan felly wella cyflymder a diogelwch y broses o fewnbynnu data i'n cronfa ddata.

Buom yn gwneud gwaith partneriaeth gyda'r Uned Llosgiadau yn Ysbyty Treforys, ac arweiniodd hyn at ddatblygu llwybr atgyfeirio ar gyfer cleifion â llosgiadau. Gwelsom nad oedd y Gwasanaeth Tân yn adnabod nifer o'r bobl a oedd wedi mynd i'r uned llosgiadau, pobl y byddent, o bosibl, wedi elwa ar Archwiliad Diogelwch yn y Cartref a chynghor ar ddiogelwch.

Mae'r gwaith cydweithredol yn parhau gyda Wales and West Utilities, sef darparu canfodyddion carbon monocsid. Aeth y cwmni ati i rannu ei daenlen ar fannau â phroblem carbon monocsid, a luniwyd yn dilyn adroddiadau am garbon monocsid mewn adeiladau domestig, â'r Gwasanaeth. Roedd hyn wedyn wedi ein galluogi i groesgyfeirio a darparu Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref.

Penodwyd un pwynt cyswllt yn yr Adran Diogelwch Cymunedol er mwyn sicrhau bod ein dull Pob Cyswllt yn Cyfrif (Diogel ac lach) yn cael ei ledaenu i bob Gorsaf Dân.

Ym mis Mehefin 2017, ymwelodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru â'r Gwasanaeth, a dysgodd am ein dull cyfannol trwy ymweld ag unigolyn agored i niwed a bod yn dyst i'r amrywiaeth o gynghor ac ymyraethau sy'n cael eu darparu. Cawsom ymateb cadarnhaol iawn gan y Comisiynydd yn dilyn ei hymweliad.

Ym mis Ionawr 2018, roeddem wedi cynnal cyfarfod o Grŵp Amlasiantaeth Atal Cwypmipiadau Cymru Gyfan, sef grŵp o bartneriaid ledled nifer o asiantaethau, a grëwyd i rannu gwybodaeth a chefnogi gwaith atal cwypmipiadau yn well. Bu'r gweithlu'n datblygu strategaethau, ac aethant ati hefyd i gynnal Uwchgynhadledd Atal Cwypmipiadau, lle cafodd syniadau o bob cwr o'r Deyrnas Unedig eu rhannu a'u trafod.

Amcan 2

Lleihau nifer yr achosion o danau bwriadol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru

<p>Rheswm</p>	<p>Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn cydgysylltu amrywiaeth eang y Gwasanaeth o ymyraethau i leihau'r risg o danau a gyneuir yn fwriadol. Yn y cyfnod o wyth mlynedd rhwng 01 Ebrill 2009 a 31 Mawrth 2017, cafwyd gostyngiad o 54% yn nifer y tanau bwriadol ledled Cymru.</p> <p>Bu'r fenter "Dawns Glaw" yn llwyddiannus iawn yn 2016, yn enwedig mewn perthynas â thanau mawr sy'n dinistrio ardaloedd sylweddol o laswelltir a choedwigaeth. Roedd yr ymgyrch Be A Nice Guy (BANG) yn defnyddio dull amlasiantaeth i dargedu problemau yn ymwneud â choelcerthi cyhoeddus answyddogol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a bu'n llwyddiannus iawn o ran lleihau galwadau i'r Gwasanaeth Tân a'r Heddlu yn ymwneud â choelcerthi ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p> <p>Byddwn yn parhau i gynnal y gwaith partneriaeth, a'r rhaglenni addysg ac ymyrraeth rhagorol sydd wedi'u sefydlu i leihau risgiau, gan ein bod yn cydnabod bod tanau bwriadol yn effeithio ar y gymdeithas, ein treftadaeth a'n hamgylchedd.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i gyflawni amcanion Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol yng Nghymru III. • Gwella'r wybodaeth sydd gennym am raddfa a chwmpas tanau bwriadol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. • Lleihau'r risg o danau bwriadol mewn adeiladau. • Rheoli'r risg sy'n ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arwain at gynnu tanau bwriadol. • Lleihau'r risg o danau bwriadol a throedd casineb yn erbyn pobl ac eiddo. • Ehangu ein rhwydwaith o grwpiau cymunedol sy'n wybodus ac yn weithredol o ran lleihau tanau bwriadol.

<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Yn y pen draw, bydd cyflawni'r amcan hwn yn llwyddiannus yn golygu y bydd ein cymunedau yn fwy diogel rhag y risg o danau bwriadol, a bydd effaith gymdeithasol ac economaidd y gweithgarwch hwn yn cael ei lleihau.</p> <p>Bydd yna hefyd fwy o weithredu cymunedol trwy gydweithio â'n partneriaid.</p>
--	--

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Bydd dull amlasiantaeth Dawns Glaw o leihau tanau bwriadol ar laswelltir yn parhau i fod yn faes ffocws ar gyfer yr Amcan hwn. Cynhaliwyd telegynadleddau wythnosol rhwng partneriaid Cymru Gyfan, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y telegynadleddau yn amlygu meysydd o bryder ynghylch rhoi Cod Llosgi Glaswellt a Grug ar waith, a ystyriwyd ac a drafodwyd wedyn gan y corff amlasiantaeth Cymru Gyfan, sef y Bwrdd Strategol ar gyfer Lleihau Tanau Bwriadol.

Mewn partneriaeth â'r Heddlu a'r gwasanaethau leuenctid, aethom ati i gynnal gweithgareddau mewn ardaloedd â phroblem ar gyfer yr ymgyrch Dawns Glaw. Er enghraifft, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Cymunedol Parc Montana, lle trefnwyd rhaglen wythnos o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer 11 o bobl ifanc, a nodwyd gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn rhai a fu'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac yn ymwneud â chynnu tanau ar lefel isel.

Aethom ati i gynnal ymyraethau a gweithgareddau gwrthdyniadol, gyda sefydliadau partner, ar gyfer plant a phobl ifanc yn ystod gwyliau'r Pasg a gwyliau'r haf, a hynny mewn ardaloedd lle roedd risg uwch o gynnu tanau bwriadol. Trefnwyd y gweithgareddau ymyrryd hyn i dynnu sylw'r bobl ifanc oddi ar ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnu tanau. Ehangwyd y gweithgareddau ymgysylltu hefyd i gynnwys cysylltiadau trawsffiniol â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd y digwyddiadau hyn yn ein galluogi i ymgysylltu mewn modd gwerthfawr â grwpiau targed, gan lywio ein strategaeth ehangach o ran ymgysylltu â phobl ifanc.

Cynhaliwyd ymyraethau amlasiantaeth mewn ardaloedd o risg uwch, er enghraifft Bôn-y-maen, Cymer, Blaendulais, Aber-craf ac Ystradgynlais. Cefnogwyd y patrolau hyn gan yr Heddlu a phartneriaid eraill, ac roeddent hefyd yn cynnwys patrolau tra gweledol gan griwiau tân.

Aethom ati i addysgu ac i gefnogi tîrfeddianwyr i losgi o fewn amserlenni penodol yn unig, ac, o ganlyniad, lluniwyd llythyr trwy'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol, a oedd yn esbonio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn hyn o beth, ac yn egluro goblygiadau llosgi y tu allan i'r amserlenni hyn, gan gynnwys yr effaith ar y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Dyfeisiodd y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol gynllun i fonitro'r amcanion a amlinellwyd yn y Strategaeth Cadw Cymru'n Wyrdd. Nodwyd gennym fod rhedyn yn cael effaith ddifrifol ar amaethyddiaeth yr ucheldir; effaith negyddol ar dwristiaeth yr ucheldir; ac ansawdd cyflenwadau dŵr. Roedd hefyd yn brif ffactor cyfrannol o ran y nifer

cynyddol o achosion o danau gwyllt mewn rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig. Felly, trwy'r Cyd-grŵp Tanau Bwriadol, cytunasom i dreialu digwyddiad Cynaeafu Rhedyn, a threfnwyd arddangosiad ym mis Mehefin 2017 yn Erwyd ger Llanfair-ym-Muallt. Roedd dros 50 o unigolion yn bresennol yn y digwyddiad, a hynny o amrywiaeth eang o asiantaethau a phartïon a oedd â diddordeb o'r diwydiant cadwraeth ac amaeth.

Dangosodd yr arddangosiad y modd y gallai peiriannau arbenigol gael eu defnyddio i dorri a chynaeafu rhedyn mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd o ganlyniad i'r dirwedd serth a geir ym mhob rhan o Gymru. Yna, roedd yn bosibl cynaeafu'r rhedyn a dorwyd, a'i ddefnyddio at wahanol ddibenion, gan gynnwys deunydd gorwedd i anifeiliaid, brics tanwydd a bioethanol. Roedd yna nifer o fanteision i waredu'r holl ddefnydd llosgadwy, er enghraifft lleihau'r llwyth tân yn yr ardal a chynyddu'r ardal bori sydd ar gael ar gyfer da byw. At hynny, roedd yn cynorthwyo bioamrywiaeth cefn gwlad.

Cynhaliwyd digwyddiad Cynaeafu Rhedyn arall yn yr un lleoliad ar 13 Medi 2017. Llwyddodd ffermwyr a phorwyr i fod yn bresennol, yn ogystal â chysylltiadau o asiantaethau perthnasol yng Nghanolbarth a De Cymru.

Yn rhan o Fenter Lleihau Tanau Bwriadol, cyflwynwyd neges ryngweithiol ar thema pantomeim ynghylch tanau glaswellt, a hynny mewn ardaloedd risg uchel yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Cawsom adborth rhagorol gan athrawon, plant ac aelodau'r cast, ac, yn dilyn y broses werthuso, paratowyd a chyhoeddwyd fideograffeg yn y ddwy iaith.

Buom yn canolbwyntio ar ehangu'r cysylltiadau cyfathrebu rhwng y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol, Heddlu De Cymru a Heddlu Dyfed Powys, a darparwyd gwybodaeth gennym am yr amrywiaeth o wasanaethau a gyflawnir gan y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol. Roedd hyn wedi galluogi i ddata'r Heddlu gael eu defnyddio mewn ffordd well i gynorthwyo'r gwaith o dargedu ac adrodd.

Lansiwyd ymgyrch amlasiantaeth lwyddiannus, a oedd yn cynnwys y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol, Heddlu De Cymru a'r RNLI, a hynny'n dilyn nifer o danau mewn ardal arfordirol. Siaradodd y Tîm â'r bobl leol, perchenogion caffis, ac aelodau o'r cyhoedd, a galluogodd hyn i'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am gynnau un o'r tanau gael ei enwi, ac i ni ddarparu ymyrraeth cynnau tanau ar ei gyfer.

Bu'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol yn gweithio gyda phartneriaid i roi cynlluniau ar waith i ddiogelu adeiladau adfeiliedig a gwag sy'n wynebu risg uchel. Ymgwymerwyd â'r gwaith hwn yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle roedd nifer o adeiladau ysgol mawr wedi'u gadael yn wag wrth i ysgolion newydd gael eu hadeiladu o dan y cynllun aildatblygu ysgolion. Yn dilyn llwyddiant y gwaith hwn, aeth Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Fwy Diogel ati i sefydlu gweithgor ar gyfer adeiladau gwag a rhai wedi'u gadael er mwyn cynnal ffordd gydgyssylltiedig â ymdrin â diogelwch.

Llwyddasom i wneud cynnydd o ran cynnal gweithgareddau Lleihau Tanau Bwriadol ledled y Gwasanaeth, a hynny ym meysydd caledu targedau, symud silindrau, storio a gwaredu gwastraff yn ddiogel, ymyrraeth uniongyrchol ar ôl digwyddiadau, a gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol ac Awdurdodu Diogelu.

Roedd cynnwys Rhingyll yr Heddlu yn adnodd gwerthfawr iawn i gefnogi'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a'u mentrau. Llwyddiant pwysig oedd nodi carafán wag, a oedd wedi ei llenwi â silindrau, a hynny trwy wybodaeth leol. Bwriadwyd i'r garafán gael ei llosgi ar 05 Tachwedd. Trwy waith amlasiantaeth, cafodd y perygl i'r gymuned ac i unrhyw Adnoddau Tân ac Achub a fyddai wedi bod yn bresennol ei nodi a'i waredu.

Lansiwyd menter newydd i ymgysylltu â'r gymuned ffermio a hyrwyddo'r neges ynghylch llosgi diogel. Rhoddwyd Cyngor ar Losgi Diogel i'r gymuned ffermio yn Ffair Aef Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, ac mae Swyddogion Cyswllt Ffermio y Gwasanaeth wedi hyrwyddo'r cyngor hwn ymhellach mewn Marchnadoedd Ffermwyr yn ardaloedd Powys, Rhydaman a Chaerfyrddin.

Er mwyn amlygu ein strategaeth llosgi diogel ymhellach, lansiwyd ymgyrch hysbysebu ar sianeli radio lleol yn Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Aethom ati hefyd i gynnal cyfweiliadau ar y teledu i hyrwyddo cyngor ar losgi diogel ar gyfer ffermwyr.

Amcan 3

Cyflawni ein rhan ni o'r Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru

Rheswm	<p>Rydym yn delio yn ddyddiol â chanlyniadau Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd, ynghyd â'r effaith y maent yn ei chael ar fywyd pobl ac ar gymunedau, a hynny am ein bod yn achub llawer mwy o bobl wedi'u hanafu o Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd nag o danau.</p> <p>Er bod diogelwch ar y ffyrdd wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar, yn 2017 cafodd cyfanswm o 3,157 o bobl eu hanafu o ganlyniad i RTCau – yng Nghymru, lladdwyd 63 o bobl ac anafwyd 607 o bobl yn ddifrifol.</p> <p>Mae Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn nodi targedau ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd tan 2020. Mae gennym ni, y Gwasanaeth, ran i'w chwarae o ran sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau, a hynny trwy ddarparu ymyraethau effeithiol o ran diogelwch ar y ffyrdd, a thargedu'r meysydd iawn, yn y ffordd iawn, i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol.</p>
Camau Arfaethedig	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Darparu gweithgareddau i wella diogelwch beicwyr modur ar ein ffyrdd ac annog unigolion i fynd ar Gyrsiau Diogelwch Beiciau Modur.• Datblygu Cwrs Ymyrraeth Amlasiantaeth ar Ddiogelwch Ieuenctid ar y Ffyrdd, a fyddai'n targedu'r bobl ifanc hynny a nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel o ganlyniad i'w hymddygiad ar y ffyrdd.• Targedu gweithgareddau ac ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd at yrwyr hŷn.
Canlyniadau Disgwyliedig	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwmo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Defnyddio'r data cenedlaethol ar Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd ac anafiadau i fonitro canlyniadau pob ymyrraeth diogelwch ar y ffyrdd.• Datblygu ein hymyraethau trwy werthusiadau ôl-ymyrraeth.• Defnyddio'r targedau sydd yn Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru;• Sicrhau gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.• Sicrhau gostyngiad o 25% yn nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020.

- | | |
|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau gostyngiad o 40% yn nifer y bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru erbyn 2020. |
|--|--|

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Penodwyd Rheolwr Cymunedol Diogelwch ar y Ffyrdd, a'n galluogodd i fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau strategol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd. Yn dilyn y penodiad hwn, roeddem yn gallu ailedrych ar ein rôl mewn grwpiau partneriaeth lleol a chenedlaethol ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd, ac roedd hyn wedi rhoi rhagor o gyfleoedd i ni ymgysylltu â phartneriaid allweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd, a hefyd i hyrwyddo mentrau cenedlaethol a nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cyllid allanol.

Cynhaliwyd y Fordaith Geir amlasiantaeth gyntaf, sef Cruz Cymru, ar faes Sioe Frenhinol Cymru ym mis Mehefin 2017. Dygodd y digwyddiad ynghyd bartneriaid o bob cwr o Gymru, gan gynnwys Go Safe, Heddlu Dyfed Powys, ROSPA, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus dros ben, ac roedd dros 1,000 o bobl yn bresennol. Llwyddodd partneriaid i gyflwyno negeseuon diogelwch allweddol ac ennyn diddordeb ein cynulleidfa darged. Wrth werthuso'r digwyddiad, gwelsom fod y broses ymgysylltu wedi cael ei chrosawu ac wedi cyflawni ei nodau o hyrwyddo negeseuon y Pump Angheuol ynghylch diogelwch ar y ffyrdd.

Rydym yn cydnabod bod nifer anghymesur o ddamweiniau ffyrdd yn digwydd ar ffyrdd gwledig, ac i yrwyr sydd wedi bod yn gyrru ers tri mis neu lai. Felly, aethom ati i weithio'n agos gyda chymdeithas y Clybiau Ffermwyr Ifanc i ddatblygu ymyrraeth i newid ymddygiad yn ymwneud â Diogelwch ar y Ffyrdd, wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer diogelwch ar ffyrdd gwledig, ac yn ymwneud â gyrwyr ifanc yn gyrru tractorau ac ôl-gerbydau.

Roedd y cwrs ymyrraeth, Revolutions, ar Ddiogelwch leuenctid ar y Ffyrdd, yn fenter lwyddiannus arall i ni. Cefnogwyd y fenter gan gyllid Llywodraeth Cymru, ac roedd yn ein galluogi i weithio'n agos gyda Gwasanaethau leuenctid. Bu i ni ymgysylltu â dros 50 o bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Roedd y cwrs yn cynnig hyfforddiant realistig ar yr hyn y mae bod yn rhan o Wrthdrawiad Traffig Ffyrdd, yn drist iawn, yn ei olygu, a hynny i yrwyr ifanc ac unigolion nad oeddent wedi dechrau gyrru eto.

Cafodd myfyrwyr ar Gwrs Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd fynd ar y cwrs Revolutions, ac, o ganlyniad, aethant ati i greu pum menter diogelwch ar y ffyrdd a oedd yn adlewyrchu eu hagweddau tuag at ddiogelwch ar y ffyrdd. Roedd hyn wedyn yn ffurfio rhan o'u cwrs yn y coleg.

Roedd gennym bresenoldeb o hyd ar grwpiau partneriaeth lleol a chenedlaethol ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd, er enghraifft Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Strategol Cymru Gyfan, y Grŵp Llywio Beiciau Modur, y Grŵp Llywio Pobl Ifanc, Grŵp Strategol Rhanbarthol Plismona Ffyrdd Cymru, Grŵp Gweithredol Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru, a Grŵp Llywio Go Safe.

Yn ystod mis Hydref 2017, roedd y Gwasanaeth wedi cynorthwyo tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Ceredigion gyda'u cwrs Biker Down cyntaf. Roeddem hefyd yn bresennol yn Sioe Feiciau Ffordun, lle y bu i ni ymgysylltu â dros 200 o feicwyr modur, gan gynnal arddangosiad o'r ffordd i dynnu helmed er mwyn helpu i hybu cyrsiau Biker Down Powys. Cynhaliwyd y cwrs Biker Down cyntaf ers dwy flynedd ym Mhowys; cafodd y cwrs groeso mawr, a gobeithiwn barhau â'n cymorth trwy gynnal rhagor o gyrsiau Biker Down.

Bu i ni gynnal cyfarfod Ymarferwyr Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru Gyfan ar 31 Ionawr, yn Llandrindod. Roedd Ymarferwyr Diogelwch ar y Ffyrdd o bob cwr o Gymru yn bresennol, a thrafodwyd y themâu a'r arferion diweddaraf o ran Diogelwch ar y Ffyrdd, gyda'r nod, yn y pen draw, o wella safonau diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru yn barhaus. Aethom ati hefyd i drefnu a chynnal seminar ar gyfer Ymarferwyr Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru gyfan, lle daeth cyd-weithwyr o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd i rannu gwybodaeth am yr holl ymyraethau gwahanol sydd ar gael, ynghyd â dealltwriaeth ohonynt. Diben y seminar oedd safoni'r dulliau a ddefnyddir a'r wybodaeth a ddarperir gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ledled Cymru.

Cynhaliwyd ymgyrch Peidiwch ag Yfed a Gyrru yn Rhydaman a Llanelli, ac yn cymryd rhan yn yr ymgyrch hon yr oedd Heddlu Dyfed Powys, Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Awdurdod Lleol Caerfyrddin, Tîm Diogelwch Cymunedol Caerfyrddin, a phersonél o Orsaf Dân Rhydaman. Helpodd yr ymgyrch i roi hwb sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Pump Angheuol o ran risgiau i ddiogelwch ar y ffyrdd. Bu'r staff diogelwch ar y ffyrdd hefyd yn cefnogi elfen addysgol yr ymgyrch trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth, ac arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer dilynwyr ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Mewn sioeau gwrth-yfed a gyrru, arddangosodd y criwiau ganlyniadau yfed a gyrru, gan ddangos sut brofiad yw cael eich trapio mewn car sydd wedi bod mewn damwain. Aethom ati hefyd i gynllunio Ymgyrch Dewisiadau, a helpodd Heddluoedd yng Nghymru i orfodi'r ymgyrch ffonau symudol a gwregysau diogelwch.

Yn ystod mis Hydref 2017, roeddem yn bresennol yn Uwchgynhadledd Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru yng Nghaerdydd, a hynny i drafod camau olaf y gwaith o adolygu Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru. Gwnaed penderfyniadau strategol a fyddai'n siapio'r ffordd y caiff Diogelwch ar y Ffyrdd ei gyflwyno a'i ariannu yng Nghymru, mewn perthynas â'r Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd cyfredol, a hefyd sut beth fyddai'r ddogfen newydd, Fframwaith 2020.

Roedd Timau Diogelwch Cymunedol yr Ardal Reoli wedi cynorthwyo i ddarparu nifer o ddigwyddiadau Diogelwch ar y Ffyrdd yn ystod wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd Brake, a gynhaliwyd rhwng 20 Tachwedd a 26 Tachwedd.

Arweiniodd Pennaeth Atal ac Amddiffyn Corfforaethol y Gwasanaeth yr adolygiad o Newid Ymddygiad ar gyfer Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru, a chafodd ei gynnwys yn y llwybr parhaus ar gyfer codi safonau diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru.

Amcan 4

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n rôl ar Fyrddau
Gwasanaethau Cyhoeddus**

<p>Rheswm</p>	<p>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gydweithio'n well er mwyn sicrhau dull mwy cydlynus, hirdymor. Diben y Ddeddf yw cryfhau trefniadau llywodraethu sy'n bodoli ar gyfer gwella llesiant Cymru, gan sicrhau bod yr anghenion presennol yn cael eu diwallu ar yr un pryd, a hynny heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.</p> <p>Felly, wrth iddynt wneud penderfyniadau, mae angen i gyrff cyhoeddus ofalu eu bod yn ystyried y modd y bydd y penderfyniadau hynny yn effeithio ar bobl sy'n byw yng Nghymru, 'nawr ac yn y dyfodol, fel ei gilydd.</p> <p>Rydym wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ddeddf arloesol a gweledigaethol. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r ddeddfwriaeth, yn ogystal â'r hyn y cynlluniwyd iddi ei gyflawni. Ystyriwn y Ddeddf yn gyfle i bartneriaid gyflawni diben cyffredin trwy gydweithio gwirioneddol, a hynny er lles ein cymunedau.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn llunio'r Asesiad Llesiant a'r Cynlluniau Llesiant, cytunwyd ar amcanion cyffredin y dylai holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymrwymo iddynt. • Sicrhau y byddai amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn ethos y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a hynny er mwyn datblygu a gwella iechyd a lles y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. • Cynnwys y saith Nod Llesiant yn ein Cynllun Corfforaethol.
<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ran perfformiad, bydd ffactorau a dangosyddion llwyddiant yn cael eu mesur trwy'r trefniadau craffu sydd ar waith gan yr Awdurdodau Lleol a'r Awdurdod Tân, a fydd yn sicrhau bod y ffactorau llwyddiant a'r canlyniadau Llesiant a nodir wedi cael eu cyflawni er budd y cyhoedd. • Trwy fynd ati mewn modd mwy cydlynus a chydweithredol o weithio gyda'nartneriaid, bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ein trefniadau o ran atal, amddiffyn ac ymateb ar y cymunedau a'r unigolion hynny sydd fwyaf anghenus. • Yn dilyn llunio Cynllun Partneriaeth, dylai hyn leihau dyblygu ledled y chwe Awdurdod Unedol, ac, ar ben hynny, ein galluogi i gyfrannu at y saith Nod Llesiant.

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Bu gennym gynrychiolydd ar lefel Bwrdd y Cyfarwyddwyr, aelod hŷn o'r Awdurdod Tân ar bob un o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y Grwpiau Craidd, yn ogystal â chynrychiolydd o'r Gwasanaeth ar bob un o Is-grwpiau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol. Chwaraeodd y Gwasanaeth ran allweddol wrth ffurfio a chymeradwyo'r gweithgorau sefydledig, a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddatblygu ei amcanion gwella, ac yn cyfrannu at y gwaith hwnnw.

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, aethom ati i sicrhau bod ein Blaenoriaethau Strategol a'n Hamcanion Gwella ar gyfer cyfnod adrodd 2017-18 yn cyd-fynd â'r Nodau Llesiant. Aed ati bob chwarter i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu, a oedd yn cynnwys ein cynnydd o gymharu â'n cyfraniad tuag at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ar gyfer pob Amcan Gwella, aethom ati i adrodd ar y statws Coch-Oren-Gwyrdd a'r canran o ran cwblhau, a'n galluogodd i fonitro cynnydd pob Amcan a'r cyfraniad tuag at yr Amcanion Llesiant, yn ogystal â'n saith Blaenoriaeth Strategol. Mae'n werth nodi bod rhai o'n Hamcanion Gwella yn para mwy na 12 mis, ac, felly, mae'n bosibl na fyddant wedi bodloni'r Nodau Llesiant yn y deuddeng mis cyntaf. Fodd bynnag, erbyn cwblhau cyfnod yr Amcanion, byddant wedi cyflawni pob un o'r Amcanion a Blaenoriaethau.

Crëwyd rôl newydd yn yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes i gefnogi'r Gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau, fel y cânt eu pennu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Aethom ati hefyd i secondio Uwchswyddog i swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'n helpodd i sicrhau cydymffurfiaeth, cydweithredu gwirioneddol, a'r budd mwyaf i'r dinesydd.

Ar ôl cwblhau'r Cynlluniau Llesiant, cyflwynwyd Cynllun pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Awdurdod Tân i'w cymeradwyo ar 19 Mawrth, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Ddeddf o ran llywodraethu.

Roeddem yn allweddol yn y gwaith o arwain nifer o ffrydiau gwaith penodol, gan gynnwys "Heneiddio'n Dda" yn ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Bu i ni hefyd arwain ymgyrch i gynyddu nifer y diffibrilwyr allanol awtomatig yn Sir Benfro, ynghyd â chynyddu mynediad atynt, yn ogystal ag o ran trefniadau i rannu safleoedd/ystadau, hefyd yn Sir Benfro.

Cyhoeddwyd Datganiad Llesiant gennym, a oedd yn nodi ein hymrwymiad i'r Ddeddf, a'r modd y bu i ni ein herio ein hunain i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, a hynny heb gyfaddawdu ar y gwasanaethau a ddarparwn. Roedd y Datganiad hefyd yn amlinellu ein gweithgareddau arfaethedig i gyfrannu at y Ddeddf, a'r modd yr oedd ein Hamcanion Gwella yn cyfrannu at y Nodau Llesiant.

Roeddem wedi cyfrannu at ddatblygu Aseidiadau o Lesiant pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac rydym wedi helpu i ddatblygu eu Hamcanion Gwella.

Aeth pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ati i ymgynghori â'i gymuned leol er mwyn casglu data a gwybodaeth a oedd yn adlewyrchiad cywir o anghenion y cymunedau yr oeddent yn eu cynrychioli. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriadau hyn hefyd ar ein mewnrwyd fewnol, ein gwefan allanol, yn ogystal â'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r dull cydgysylltiedig o gyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu, a ddarparwyd gan fframwaith pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi galluogi'r Gwasanaeth a'n partneriaid i ymgysylltu â chynulleidfa gyhoeddus ehangach ar faterion sy'n bwysig, ac a allai, o bosibl, effeithio arnynt.

Mae cydweithio wedi bod yn allweddol bwysig o ran cyflawni'r Amcan hwn. Trwy gydweithio â'n partneriaid yn rhan o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, rydym wedi cydgysylltu a chydamseru ein dulliau â sawl un o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, gan sicrhau ein bod yn rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau, a pharhau i greu gwell dyfodol ar gyfer Cymru o ganlyniad.

Amcan 5

Cyfrannu at Rwydwaith newydd y Gwasanaethau Brys (ESN) a'i roi ar waith.

Rheswm	<p>Er bod Rhwydwaith cyfredol ein Gwasanaethau Brys yn ddull cyfathrebu dibynadwy ac effeithiol iawn, mae'n ddrud, ac yn addas ar gyfer cyfathrebu lleisiol a throsglwyddo data cyfyngedig yn unig.</p> <p>Mae Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig, yn unol ag agenda digideiddio'r Llywodraeth, wedi cychwyn ar Raglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMPC). Bydd y rhaglen yn darparu system gyfathrebu y genhedlaeth nesaf, gan gynnwys gwasanaethau data llais a band eang integredig hanfodol, ar gyfer y tri gwasanaeth brys.</p>
---------------	--

	Bydd Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) yn rhwydwaith cyfathrebu symudol ac iddo gwmpas eang, gwytnwch uchel, diogelwch priodol, a nodweddion diogelwch cyhoeddus. Bydd y Rhwydwaith yn galluogi'r tri gwasanaeth brys i gyfathrebu hyd yn oed dan yr amgylchiadau mwyaf heriol.
Camau Arfaethedig	Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau'r gwaith paratoi er mwyn ein galluogi i gyrchu'r ESN o fis Chwefror 2016 ymlaen. • Prynu'r galedwedd a'r feddalwedd ofynnol. • Paratoi'r rhwydweithiau perthnasol. • Darparu sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer y staff.
Canlyniadau Disgwyliedig	Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Bydd llwyddiant yn cael ei fesur ar ôl cyflwyno cysylltiad cwbl weithredol â'r ESN. • Bydd gennym rwydwaith a system a fydd yn ein galluogi i ymateb mewn modd integredig i ddigwyddiadau. • Bydd cydweithio â'n partneriaid yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn fwy effeithlon a chosteffeithiol, a bydd yn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ein cymunedau.

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Mae Rhaglen Rhwydwaith Cyfathrebu y Gwasanaethau Brys ar ei hôl hi o ganlyniad i nifer o broblemau sydd wedi oedi'r broses o'i rhoi ar waith.

Prynwyd dyfeisiau llaw a chwblhawyd y gwerthusiadau, a chreodd hyn wedyn fframwaith o gyflenwyr dyfeisiau ar gyfer y defnyddwyr. Er mwyn sicrhau bod ESN yn cael ei weithredu mewn modd amserol yn y Gwasanaeth, ffurfiwyd bwrdd prosiect a oedd yn cwrdd bob chwarter.

Cytunasom i gynnal archwiliad iechyd TG llawn yn rhan o'r paratodau ar gyfer Cod Cysylltu'r ESN, yr oedd ei angen er mwyn i'r Gwasanaeth gysylltu â'r DNSP yn y Gyd-ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus.

Ar ddechrau'r rhaglen, cydnabuwyd bod rhwystrau ariannol a thechnegol wedi dod i'r amlwg, y byddai'n rhaid i'r Prosiect eu goresgyn.

Amcan 6

Datblygu ymhellach ganfyddiadau Adolygiad o Risgiau ac Asesiad Strategol y Gwasanaeth

<p>Rheswm</p>	<p>Aethom ati i gynnal Adolygiad o Risgiau yn 2016-17, a'n galluogodd i ddeall y risgiau y mae ein cymunedau yn eu hwynebu, ac i sicrhau ein bod yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio ein gwasanaethau er mwyn lleihau'r risgiau hynny cymaint â phosibl. Trwy gynnal adolygiad o holl risgiau'r Gwasanaeth, bydd hyn yn ein galluogi i nodi'n glir y modd y gallwn gyfateb ein hadnoddau yn y ffordd orau i'r risgiau pennaf yn ein cymunedau.</p> <p>I ddeall yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu yn llawn, mae'n bwysig ein bod yn casglu'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod ein Hadolygiad o Risgiau yn berthnasol, yn gyfredol ac yn gywir. Bydd gwaith yr Adolygiad o Risgiau yn sicrhau ein bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn y dyfodol.</p> <p>Yn ystod 2016-17, bu i ni gyflawni dau adolygiad arwyddocaol, sef Asesiad Strategol o'r ffactorau allanol sydd â'r potensial i effeithio ar ein Gwasanaeth yn y dyfodol, ac Adolygiad o'r Gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau craidd, ac a oedd yn cynnwys archwiliad "gwreiddiau a brigau" o'n Gwasanaeth, a hynny er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella trwy ymgorffori Adolygiad o Risgiau. Bydd y ddau ddarn o waith ymchwil yn ein galluogi 'nawr i wneud penderfyniadau yn y dyfodol sy'n seiliedig ar risgiau a thystiolaeth, ac a fydd yn nodi meysydd allweddol i'w gwella ledled ein sefydliad.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <p>Ymgymryd â Cham 2, sef cam datblygu opsiynau yr Adolygiad o Risgiau, gan ddechrau llunio senarios ac opsiynau arwyddocaol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gesglir ac a ddadansoddir yng nghanam 1.</p>
<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu proses lle byddem yn modelu senarios posibl ac yn defnyddio'n llawn yr wybodaeth a gesglir er mwyn mwyhau'r potensial i lwyddo. • Cynnal rhaglenni peilot a/neu dreialon er mwyn sefydlu'r ffordd optimwm ymlaen.

	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu amcanion y cytunwyd arnynt, a gwerthuso'r canlyniadau. • Mabwysiadu methodoleg wella barhaus.
--	---

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael ei arwain gan risgiau yw Rhaglen Adolygu'r Gwasanaeth, wedi'i gynllunio i sicrhau bod ein hadnoddau yn cyfateb mewn modd effeithiol ac yn effeithlon i'r prif risgiau yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Cyflwynwyd cyfres o opsiynau, yn ymwneud ag opsiynau A a B, i'r Tîm Arwain Gweithredol ym mis Tachwedd. Ystyriodd y Tîm yr opsiynau yn llawn, a, lle roedd hynny'n briodol, aethant ati i roi camau gweithredu ar waith yn ymwneud â'r opsiynau a gyflwynwyd, er mwyn cyflwyno gwelliannau busnes cysylltiedig yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Bydd y camau gweithredu mewn perthynas â'r canlyniadau/opsiynau a ystyriwyd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn adrodd 18-19.

Cwblhawyd y prosiect Ar Alwad, a gynhyrchodd amrywiaeth eang o opsiynau a gynlluniwyd i wella ac ehangu ein sector ar alwad. Bydd tîm bach, pwrpasol yn cael ei ffurfio yn ystod 2018-19 i gefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion y prosiect, a bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses bontio i'r ffyrdd newydd o weithio a nodwyd yn un effeithiol.

Prynwyd y llwyfan meddalwedd integredig (Firewatch), ac mae'r gwaith o weithredu'r llwyfan wedi gwneud cynnydd cyson.

Cychwynwyd Prosiect T2020, a oedd yn rhan o waith trawsffurfio digidol ehangach yn y Gwasanaeth, ac yn cynnwys meysydd tebyg i: olrhain personél gweithredol mewn amser real trwy'r System Leoli Fyd-eang (GPS); integreiddio delweddau UAV mewn amser real trwy broses olrhain GPS; cyrchu a rhannu data mewn modd llyfn ledled asiantaethau partner; a mapio amgylcheddau gweithredol mewn 3D trwy ddefnyddio technolegau rhith-wirionedd a realiti estynedig.

Amcan 7

Adolygu a datblygu ein hymateb i achosion o lifogydd

<p>Rheswm</p>	<p>O ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae mwy a mwy o alw ar Ddiffoddwyr Tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ymateb i lifogydd, a hynny er mwyn achub unigolion ac amddiffyn eiddo rhag effeithiau difrodol dŵr a halogiad.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ffurfioli sail yr ymateb i lifogydd, ac, yn dilyn ymgynghoriad lle daeth 40 o ymatebion i law, diwygiwyd y gorchymyn o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ar 01 Ebrill 2017, i osod dyletswydd statudol newydd i ymateb i lifogydd ac argyfyngau sy'n ymwneud â dŵr, ac sy'n peri risg o farwolaeth, anaf difrifol neu salwch difrifol.</p> <p>Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o ganlyniad i'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau, a sicrhau bod ein diffoddwyr tân wedi'u harfogi a'u paratoi yn well, ac, felly, yn fwy diogel, byddwn yn sicrhau bod y gofynion o ran cyfarpar a hyfforddiant yn cael eu gwerthuso.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r gofynion hyfforddiant a llunio rhaglen ddatblygu er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y lefel ofynnol o wybodaeth a sgiliau. • Adolygu ein fframwaith cymhwysedd Gorchymyn a Rheoli er mwyn sicrhau bod ein rheolwyr digwyddiadau yn cael eu datblygu a'u hasesu mewn modd priodol o ran rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr. • Llunio mentrau atal/rhaglenni addysgol i helpu'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau i'w hamddiffyn eu hunain rhag effeithiau digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr. • Adolygu a datblygu ein canllawiau gweithredu safonol.
<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro a lledaenu canlyniadau adolygiadau, ymchwiliadau, ac ôl-drafodaethau. • Casglu data rheoli perfformiad. • Cywain tystiolaeth am well canlyniadau yn achos digwyddiadau gweithredol ac ymarferion, wedi'i chasglu trwy'r system dysgu gweithredol. • Monitro ein perfformiad ac adrodd arno yn unol â Rhaglen Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Ym mis Ebrill 2017, gosodwyd dyletswydd statudol ar Wasanaethau Tân ac Achub Cymru i ymateb i argyfyngau yn ymwneud â llifogydd. Sicrhaodd Llywodraeth Cymru hefyd fod arian grant ar gael ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i adnewyddu asedau sy'n bodoli o ran cyfarpar achub dŵr, gan gynnwys cerbydau ac offer diogelwch personol (PPE).

Aethom ati i amlinellu ein gofynion mewn perthynas ag adnewyddu asedau, ac archebwyd PPE a chyfarpar atodol ym mis Tachwedd 2017. Disgwylir i'r cyfarpar gael ei ddsbarthu i orsafoedd gweithredol erbyn mis Ebrill 2018. Ychwanegwyd hefyd at ein hasedau o ran cyfarpar achub dŵr, ac archebwyd cychod a pheiriannau newydd. Roedd hyn wedi gwella ein gallu i achub yn ystod digwyddiadau sy'n ymwneud â llifogydd a dŵr.

Prynwyd chwe cherbyd Technegydd Dŵr Cyflym (SRT). Adeiladwyd y cerbydau newydd gan E1 Coachbuilders, a byddant yn cael eu defnyddio i drosglwyddo'r cychod SRT, cadw cyfarpar gweithredol, a darparu gwell cyfleusterau lles ar gyfer personél gweithredol yn ystod llifogydd a digwyddiadau achub dŵr. Mae gan y cerbydau newydd allu 4x4 i'w galluogi i gyrraedd tirwedd heriol mewn ardaloedd anghysbell. Darparodd ein Hadran Hyfforddi hyfforddiant cynefino ar y cerbydau cyn iddynt gael eu rhoi "ar waith" ym mis Ebrill 2018.

Byddwn yn arwain ar y prosiect Ymarfer Cwrwgl, sef Ymarfer Achub Dŵr a Llifogydd a gynhelir ym mis Hydref 2018, a hynny mewn nifer o leoliadau ledled ardal y Gwasanaeth. Bydd yr ymarfer yn ymarfer llifogydd amlasiantaeth, a fydd yn rhoi cyfle unigryw i ymatebwyr roi prawf ar gynlluniau cydnerthedd a gweithdrefnau gweithredol mewn amgylchedd heriol. Bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub, yr Heddlu, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, yr RNLI, Gwylwyr y Glannau, Timau Achub Mynydd, a phartneriaid trydydd sector yn bresennol yn yr ymarfer.

Amcan 8

Cefnogi cynaliadwydd economaidd yn ein cymuned fusnes

<p>Rheswm</p>	<p>Nid oes llawer o Fusnesau Bach a Chanolig (BBACH) yn goroesi tân ac yn ailddechrau masnachu. Felly, byddem yn hoffi canolbwyntio mwy ar sicrhau bod busnesau'n gallu datblygu a pharhau i weithredu, ynghyd â chanfod ffyrdd o leihau'r baich rheoleiddiol sydd ar fusnesau.</p> <p>Yn hynny o beth, bydd ein gweithgarwch diogelu yn sicrhau bod y cyngor a roddir o'r safon uchaf; bod ein gweithgarwch gorfodi yn gymesur â'r peryglon yn y busnes; a bod cyn lleied o amser ag y mae ei angen yn cael ei dreulio yn cyfathrebu â busnesau.</p> <p>Bydd ein rhaglen archwiliadau diogelwch rhag tân busnesau yn cefnogi, datblygu ac arwain y gymuned fusnes er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd. Rydym am annog cynaliadwyedd economaidd a chymunedau cydlynol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Trwy hyrwyddo cynaliadwyedd economaidd yn ein cymuned fusnes, bydd busnesau yn fwy gwydn a chynaliadwy, a bydd ganddynt lefelau uwch o gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol. Bydd y cyngor a roddir yn fwy cyson ledled ardaloedd daearyddol, ac yn cynyddu ymwybyddiaeth trwy addysg; bydd hefyd yn sicrhau bod y rheiny sy'n defnyddio'r adeiladau neu'n gweithio ynddynt yn fwy diogel trwy ein mesurau. Golyga hyn y bydd cynaliadwyedd economaidd yn cael ei hyrwyddo o ganlyniad i'r holl gamau a gymerir.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ehangu ein rhaglen archwiliadau diogelwch rhag tân busnesau i gynnwys rhoi cymorth ac arweiniad i fusnesau. • Diwygio'r ffordd yr ydym yn cyflwyno ein gweithgareddau cydymffurfio arferol i fusnesau trwy weithredu proses yr archwiliad byr. • Cynyddu ein cysylltiad â Chynlluniau Awdurdodau Sylfaenol, er mwyn lleihau baich rheoleiddiol a chynyddu cysondeb. • Dwysáu'r pwyslais, ledled y sefydliad, ar yr angen i ystyried effaith caffael, a hynny cyn gynted â phosibl, yn unol â'r amcanion strategol. • Datblygu a chyflwyno'r mentrau mewn modd dynamig trwy gydol 2017-18.
<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro adborth pob cwsmer, a'i werthuso. • Monitro nifer yr achosion o danau yn yr amgylchedd adeiledig, ac atal colledion yn dilyn hynny.

	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro canran y busnesau sy'n Fusnesau Bach a Chanolig.
--	--

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Rydym wedi parhau i gydweithio â phartneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill er mwyn lleihau'r risg yn y sector annomestig a'r sectorau masnachol eraill. Bellach, mae gennym ddata am risgiau tân gan Experia, sy'n ategu at ein rhaglen archwilio, ac mae hyn yn ein cynorthwyo i dargedu adeiladau sy'n wynebu risg uwch, a hynny y rhan o'r Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risgiau.

Roeddem wedi parhau hefyd i gydweithredu ag amrywiaeth o asiantaethau partner, er enghraifft Ystadau'r GIG, Tai Awdurdodau Lleol, Rheoli Adeiladau, Trwyddedu, Cyfoeth Naturiol Cymru, AGGCC, AGIC, Cymdeithasau Tai, CADW/English Heritage, a Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru. Cydgysylltwyd y cydweithredu rhwng yr asiantaethau a restrir uchod trwy Grŵp Diogelwch Busnesau Cymru Gyfan.

Cynyddodd nifer y staff a gyflawnodd Ddiploma Lefel 4 ym maes Diogelwch Rhag Tân, ynghyd â'r amrywiaeth o arbenigeddau, er enghraifft Adeiladau Iechyd, Treftadaeth, Digwyddiadau Awyr Agored a Lleoedd Poblog, a gynyddodd hefyd o ganlyniad i gynnydd cymesur yn nifer y staff oedd â'r sgiliau hyn i fynd i'r afael â'r gofynion. Roeddem wedi gofalu bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal ar gyfer y staff mewnol er mwyn sicrhau bod ganddynt ffocws, ynghyd â'r wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf.

Daeth y newidiadau i Gynllun yr Awdurdodau Sylfaenol i rym ym mis Hydref 2017, ac, yn anffodus, nid oeddem mewn sefyllfa i ffurfio unrhyw bartneriaethau â busnesau ar y pryd oherwydd problemau'n ymwneud â gallu.

O ganlyniad i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â Rhentu Doeth Cymru, lluniwyd amrywiaeth o becynnau Hyfforddiant Diogelwch Rhag Tân, a oedd ar gael i landlordiaid yn y sector preifat er mwyn gwella eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch rhag tân, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol mewn eiddo ar rent.

Aethom ati i osod cronfa ddata CFRMIS newydd, a oedd yn darparu gwell swyddogaethau swyddfa gefn, ynghyd â'r gallu i gynnal a chofnodi gweithgareddau'n ymwneud ag Archwiliad Byr o Ddiogelwch Rhag Tân Busnesau. Roedd cyflwyno'r gronfa ddata newydd wedi lleihau'r baich rheoleiddiol a oedd ar fusnesau, ac wedi galluogi'r staff i ymweld â rhagor o adeiladau er mwyn gwella cydymffurfiaeth a, thrwy ymgysylltu, godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch rhag tanau mewn adeiladau annomestig.

O ganlyniad i weithgareddau cydweithredol â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, lleihawyd costau hyfforddi'r staff trwy gyfuno niferoedd fel bod digon o gynrychiolwyr ar gael i sicrhau ei bod yn ddichonadwy cynnal cyrsiau yn fewnol nag mewn lleoliadau allanol; hefyd, trwy ailwerthu lleoedd gwag, gwrthbwyswyd y costau i'r Gwasanaeth. Trwy wneud gwell defnydd o'r cyllid, roedd yn bosibl i ragor o bersonél fod yn bresennol mewn amrywiaeth ehangach a mwy arbenigol o gyrsiau, rhywbeth na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

Cyflwynwyd cerbydau wedi'u pweru gan hydrogen a beiciau trydan yn ardaloedd Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, ac roedd hyn yn galluogi'r personél yn yr ardal honno i leihau eu hól troed carbon, symud o amgylch y ddinas yn haws, a chyrraedd pobl na fyddent wedi gallu eu cyrraedd pe byddai cerbyd wedi cael ei ddefnyddio.

Roeddem wedi cyfrannu at barhad ffyniant busnesau a masnach ledled ardal y Gwasanaeth trwy barhau i leihau colledion o ganlyniad i danau mewn adeiladau annomestig, a hynny trwy weithgareddau rhagweithiol. Darparodd ein harolygwyr Diogelwch Rhag Tân Busnesau gyngor ychwanegol ynghylch parhad busnesau, a oedd yn cwmpasu atal llifogydd, diogelwch, atal tanau bwriadol a chynyddu lefelau sgiliau'r staff yn yr adeiladau yr ymwelwyd â nhw.

Yn dilyn cyflwyno'r Archwiliad Byr, roeddem wedi gallu ymweld â mwy o adeiladau a'u harchwilio, yn hytrach nag ailymweld ag adeiladau a oedd, yn hanesyddol, wedi bod yn rhan o'r Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risgiau. Bu i ni hefyd weithredu dull mwy deallus a thargededig o ymdrin ag adeiladau risg, a oedd yn well sail i'r Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risgiau gan ei bod yn cynnwys y set ddata ehangach.

Aeth y gwaith rhagddo ar y broses Sicrwydd Gweithredol Cymru Gyfan, a arweiniodd at welliannau yn y ffrydiau gwaith er budd yr adran a'r rhanddeiliaid. Roeddem wedi parhau i adeiladu ac ehangu'r rhwydweithiau ym maes Diogelwch Rhag Tân Busnesau, gan olygu ein bod yn gallu dylanwadu ar fusnesau yn y sector masnachol ac annomestig, a'u haddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel rhag effeithiau tân. Buom hefyd yn ymgysylltu a rhannu arferion gorau â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru.

Yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell, aethom i'r afael ag 80 o adeiladau o fewn chwe wythnos. Roedd aelodau o Adran Diogelwch Rhag Tân Busnesau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn rhan o waith is-grwpiau Grŵp Diogelwch Busnesau Cymru Gyfan, a aeth i'r afael ag amcanion Adolygiad Hackitt i Reoliadau Adeiladu a Diogelwch Rhag Tân. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl canlyniad Adolygiad Hackitt, ac felly byddwn yn addasu i unrhyw newidiadau newydd os bydd hynny'n angenrheidiol.

Rhoddyd prosesau Sicrhau Ansawdd ar waith mewn perthynas â darparu Gweithgareddau Diogelwch Rhag Tân, a hynny er mwyn sicrhau trefn orfodi gyson, yn unol â chod y rheoleiddwyr. At hynny, gwnaed gwaith pellach i wella'r broses

Sicrhau Ansawdd, er enghraifft canolbwyntio'n fanylach ar weithgareddau trwy Reoli Perfformiad; sicrhaodd hyn fod y gweithgareddau a gynhaliwyd yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Roedd hyn yn darparu ymateb mwy targededig i adeiladau risg, ynghyd â safon uwch o ymgysylltu.

Diwygiwyd y broses o weinyddu cyflwyniadau Rheoliadau Adeiladu yn sylweddol, a hynny yn dilyn creu tîm pwrpasol i ddarparu un hyb technegol, tra medrus o bersonél. Datblygwyd y tîm hwn ymhellach i fodloni anghenion y dyluniad newydd ar gyfer adeiladau a saerniwyd i wrthsefyll tân, gan ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Aethom ati i osod y gronfa ddata CFRMIS newydd, a oedd yn darparu gwell swyddogaethau swyddfa gefn, ynghyd â'r gallu i gynnal a chofnodi gweithgareddau'n ymwneud ag Archwiliad Byr o Ddiogelwch Rhag Tân Busnesau. Roeddem hefyd wedi cynnwys data Experian yn y Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risgiau, a gynorthwyodd o ran dulliau mwy clyfar o weithio a gwell prosesau targedu ar gyfer adeiladau busnes.

Cyflawnodd nifer o'r staff gymhwyster Diploma Lefel 4, a arweiniodd at ostyngiad yn y baich mentora ac felly gynnydd yn nifer yr Archwiliadau o Ddiogelwch Rhag Tân Busnesau a gynhaliwyd. Roedd y cynnydd yn nifer y personél a oedd ar Lefel 4 hefyd wedi galluogi i'r Tîm Rheoliadau Adeiladu gael ei ffurfio.

Amcan 9

Buddsoddi yn ein pobl

Rheswm	<p>Yn 2015, cyflawnodd y Gwasanaeth lefel Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, a'n nod yw cynnal ein llwyddiant yn hynny o beth, yn ogystal â gwella arno, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cydnabod yr ymrwymiad yr ydym yn ei wneud i ddatblygiad pobl a'r sefydliad. Erbyn hyn, rydym wedi sefydlu'r fframweithiau angenrheidiol i sicrhau bod y modd y mae sgiliau a chymwyseddau yn cael eu hennill, eu cymhwyso a'u cynnal yn gywir.</p> <p>Rydym am sicrhau bod ein holl staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. At hynny, rydym am ddarparu'r cyfarpar a'r cyfleoedd datblygu gorau ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau diogelwch ein gweithwyr yn ogystal â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.</p> <p>Rydym wedi croesawu'r dull e-ddysgu newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ategu at unrhyw anghenion dysgu a datblygu a nodir, a</p>
---------------	---

	<p>byddwn yn parhau i adolygu ein Llwybrau Datblygu Sefydliadol er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu effeithiol ac effeithlon.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori diwylliant dysgu a fydd yn bodloni anghenion ein Gwasanaeth 'nawr ac yn y dyfodol, a hynny yn rhan o'r gwaith o adnewyddu ein Llwybrau Strategol a mireinio ein proses IDR yn ystod 2017-2018. • Archwilio pob cyfle i ddysgu gan ein partneriaid a'n rhanddeiliaid a chydweithio â nhw. • Sicrhau bod ein swyddogaeth ymchwil a datblygu yn edrych y tu hwnt i Sector Tân y Deyrnas Unedig am atebion arloesol ar gyfer y dyfodol; proses barhaus yn ystod y 5 mlynedd nesaf. • Sicrhau bod sgiliau a chymwyseddau Risg Critigol yn adlewyrchu proffiliau risgiau ein Cymunedau yn gywir.
<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwmo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archwilio Matrics Sgiliau Risg Critigol a PDR Pro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion, gan gynnwys cysylltiadau â'r llwybrau sefydliadol. • Defnyddio'r Fframwaith Buddsoddwyr mewn Pobl i werthuso effaith hyfforddiant ar y Gwasanaeth. • Defnyddio proses werthuso i amlygu'r modd yr ydym yn defnyddio arloesedd i ddarparu gwell canlyniadau ar gyfer cymunedau. • Defnyddio gwybodaeth am fusnesau yn sail i wella Ymatebion Brys a Diogelwch Cymunedol.

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Ailddyfarnwyd Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Gwasanaeth, ac aeth ati i hefyd i gychwyn rhaglen datblygu sefydliadol i gefnogi'r broses o gyrraedd y Safon Platinwm.

Yn ystod mis Ebrill 2017, bu i ni gynnal Canolfan Asesu a Datblygu Strategol Cymru Gyfan (ADC). Cymerodd 16 o ymgeiswyr o bob cwr o Gymru ran, a phasiodd naw ohonynt, gyda thri o'r rheiny yn weithwyr Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Dangosydd da o'n llwyddiant a'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein pobl yw'r Noson Gwobrau Cyflawniad Academaidd a Galwedigaethol a gynhaliwyd gennym yng Ngholeg Sir Gâr yn Llanelli, lle gwnaed cyflwyniadau i gydnabod y 190 o gymwysterau a gyflawnwyd gan ein staff yn ystod y 12 mis blaenorol.

Cynhaliwyd cwrs recriwtio Amser Cyflawn (WTDS) gennym ym mis Medi 2017, a chwblhaodd 12 o recriwtiaid newydd yr hyfforddiant yn ffurfiol mewn gorymdaith ar 07 Rhagfyr 2017. Roedd yr holl bersonél yn gweithio tuag at NVQ Lefel 3 y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Gweithrediadau Gwasanaethau Tân Brys yn y Gymuned, a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod dwy flynedd gyntaf y rôl.

Yn dilyn prynu set newydd o Offer Anadlu, darparodd yr Adran Cyflenwi Hyfforddiant hyfforddiant ar gyfer dros 900 o weithwyr gweithredol ym mhob un o leoliadau'r Gwasanaeth.

Buom yn cydweithio ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru er mwyn sicrhau bod Parafeddyg yn cael ei secondio am ddwy flynedd i'r Adran Cyflenwi Hyfforddiant. Roedd y secondiad hwn wedi gwella'r hyfforddiant a ddarperid ar gyfer yr holl weithwyr gweithredol yn y Gwasanaeth, ac wedi datblygu sgiliau a chymwyseddau gweithredol y staff hyfforddi ymhellach. Buom hefyd yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru i gyflenwi hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant diweddarau ar gyfer y personél cyd-ymateb.

Cytunwyd ar Becyn Buddiannau Gweithwyr, ac aeth hwn yn fyw ym mis Tachwedd 2017, a hynny trwy Hwb Buddion ar-lein sy'n un penodol ar gyfer y Gwasanaeth. Helpodd y pecynnau y gweithwyr i fwyhau eu henillion trwy hwyluso Cynlluniau Aberthu Cyflog (gan arbed Treth a chyfraniadau YG) ar gyfer cerbydau, beicio i'r gwaith, technoleg TG/Symudol, a chynlluniau disgownt eraill. Yn dilyn yr ymateb cadarnhaol yn ystod y cyfnod archebu cyfyngedig cychwynnol, penderfynasom ail-lansio'r cynllun yn barhaol o fis Ebrill 2018 ymlaen.

Cynhaliodd yr Adran Adnoddau Dynol gyfarfodydd â Neyber, sef unig ddarparwr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ran gwasanaethau cyngor ar Les Ariannol a benthyciadau cyfuno dyledion llog isel, lle byddai'r ad-daliad yn cael ei wneud trwy Adran y Gyflogres. Roedd cyngor ariannol hefyd ar gael i bob gweithiwr trwy Hyb Buddion iCom.

Crëwyd Pecyn Cymorth Anabledd i roi arweiniad ychwanegol i reolwyr ar gyfer nodi a darparu addasiadau rhesymol (lle bo hynny'n berthnasol) ar gyfer aelodau o'r tîm. Cynhaliwyd tri gweithdy yn ystod mis Hydref 2017, a oedd yn darparu hyfforddiant i Reolwyr, ac yn eu galluogi i ofyn am eglurhad o'r Pecyn Cymorth Anabledd, ynghyd â chanllawiau ar sut i'w ddefnyddio.

Cynhaliwyd Seminarau Cyn Ymddeol ym misoedd Medi 2017 ac Ebrill 2018, a oedd yn cynnig cyngor ac arweiniad gan Gynghorwyr Ariannol/Pensiynau cymwys i weithwyr a oedd yn nesáu at oedran ymddeol, ac a oedd am gynllunio'n effeithiol ar gyfer eu dyfodol. Roedd yr wybodaeth a drosglwyddwyd wedi eu cynorthwyo'n fawr wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig mewn perthynas â chynllunio ar gyfer eu hymddeoliad, a hynny o ran eu gallu ariannol a phersonol.

Dyfarnwyd contract newydd ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, a oedd yn cynnig darpariaeth lechyd a Lles sefydledig, yn ogystal â Chymorth Lliniaru yn dilyn Digwyddiad Difrifol, i gynorthwyo'r staff i reoli effaith emosiynol a meddyliol y digwyddiadau y buont yn bresennol ynddynt.

Cynhaliwyd Diwrnodau Ymwybyddiaeth o Fenywod mewn sawl lleoliad, gan gynnwys un yng Ngorsaf Dân Port Talbot ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, i gefnogi'r gwaith o ddenu menywod a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i rôl y ddiffoddwr tân, ac i gyfrannu at weithlu mwy amrywiol yn y dyfodol. Cafodd y strategaeth i gefnogi'r gwaith o ddenu menywod a grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ei llywio gan ganlyniadau arolwg o bersonél gweithredol benywaidd, ynghyd ag arolwg o ymgeiswyr benywaidd a fu'n aflwyddiannus yn eu cais i ddod yn Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn yn ystod yr ymgyrch recriwtio ddiwethaf. Roedd yr wybodaeth hon yn sail i gyfarwyddo mentrau gweithredu cadarnhaol ledled ardal y Gwasanaeth.

Darparwyd cefnogaeth i'r staff gweithredol mewn perthynas â'u ffitrwydd corfforol. Darparwyd cyfarpar ar gyfer pob gorsaf ledled y Gwasanaeth i'w helpu i gyflawni a chynnal y lefel ofynnol o ffitrwydd corfforol ar gyfer eu rôl. Roedd yna ganllawiau ar weithgareddau corfforol ac ymarfer corff i gyd-fynd â hyn, ynghyd â llyfryn maeth a gynigiai gyngor ar ddewisiadau bwyd iachach i gynnal iechyd a lles cyffredinol.

Parhawyd i edrych ar gyfleoedd i ddenu arian i gefnogi'r gwaith o ddatblygu prentisiaethau yn y Gwasanaeth, ac, ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru, chwaraeasom ran allweddol o ran llunio'r cymhwyster Prentisiaeth Diffoddwyr Tân newydd. Drafftwyd Diploma Lefel 3 newydd mewn Diffodd Tân, a rhagwelwyd y byddai'r cymhwyster newydd yn cael ei roi ar Fframwaith Prentisiaethau Cymru erbyn mis Mehefin 2018, ar ôl cael ei gadarnhau.

Datblygwyd Rhaglen Interniaeth newydd i Raddedigion mewn partneriaeth ag Academi Cyflogadwyedd Abertawe (Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant). Bydd y Rhaglen yn cynnig cyfleoedd i raddedigion ddod i gysylltiad â byd gwaith wrth iddynt gynorthwyo'r Gwasanaeth mewn amrywiaeth o feysydd gwahanol.

Er mwyn dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i les gweithwyr a'i fuddsoddiad mewn strategaethau ataliol a rhagweithiol, datblygodd yr Adran Datblygu Pobl strategaeth i gefnogi Hyfforddiant ar Les Gweithwyr ac Iechyd Meddwl. Darparwyd yr hyfforddiant mewn pedwar cam, a hynny o Lefel 1, a oedd yn cwmpasu'r holl staff, i Lefel 4, a oedd yn darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer cnewyllyn bach o Reolwyr Risg Trawma (TRiM).

Datblygwyd Arweinwyr y Dyfodol gan ddefnyddio ymagwedd gyfunol at ddatblygiad sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys Rhaglen Rheoli Goruchwyliol a oedd yn cwmpasu seminarau â thema i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu rheolwyr modern, gan gynnwys meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol a chreu'r meddylfryd cywir mewn sefydliadau. Cefnogwyd y Rheolwyr Canol ar Raglen Her Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru Gyfan, a chymerodd dau ymgeisydd ran yn y Rhaglen Arweinyddiaeth Strategol gyntaf, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Cafodd gweithwyr ar y lefel reoli briodol hyfforddiant diweddarar ar gyfer cyfweiliadau. Roedd yr hyfforddiant hwn yn cynorthwyo'r rheolwyr i gyfrannu'n effeithiol at brosesau dethol yn y dyfodol mewn perthynas â'u timau a'u cynlluniau datblygu personol, a hefyd yn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â phrosesau o'r fath mewn modd diogel ac effeithiol.

Sicrhodd yr Adran Adnoddau Dynol gydymffurfiaeth â dyddiad Cofrestru Awtomatig y Gwasanaeth, a olygai bod pob gweithiwr cymwys yn cael ei gynnwys yn y cynllun pensiwn perthnasol, yn unol â'r rheoliadau Cofrestru Awtomatig. Parhaodd yr Adran Adnoddau Dynol i weinyddu'r broses Cofrestru Awtomatig ar gyfer Pensiynau, gan sicrhau bod y gweithwyr yn cael gwybod mewn modd effeithiol am wybodaeth bwysig yn ymwneud â'u statws o ran aelodaeth y cynllun pensiwn.

Aeth y gwaith rhagddo'n dda ar gyfer yr ymweliad Sicrwydd Ansawdd Allanol (EQA) ym mis Ionawr, a chefnogwyd staff yr adran Datblygu Pobl, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill ledled y Gwasanaeth, i lenwi eu portffolios EQA. Roedd darparu Sicrwydd Ansawdd Allanol ledled y Gwasanaeth yn cefnogi anghenion y rhai sy'n gweithio tuag at gymwysterau cofrestredig Sgiliau er Cyfiawnder (SfJ). Yn seiliedig ar yr adolygiad o'r portffolio dysgu a datblygu, a gynhaliwyd gan EQA, cyflawnodd y cyfeirnod Rheoli Digwyddiadau statws "Hawliadau Uniongyrchol", a oedd yn hynod o gadarnhaol.

Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus ar gyfer Fersiwn 4 o PDR Pro (Meddalwedd Cofnodi Cymhwysedd Hyfforddi), cytunwyd i ymestyn y defnydd o Fersiwn 4 i'r Ardaloedd Rheoli Sirol ym mis Ionawr 2018. Roedd yr adborth cadarnhaol a ddaeth i law yn cadarnhau bod y system yn haws ei defnyddio, ac yn ei gwneud yn haws llunio adroddiadau a nodi lefelau cymhwysedd a gyflawnid trwy hyfforddiant ac yn yr amgylchedd gweithredol.

Amcan 10

Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a'n hadnoddau

<p>Rheswm</p>	<p>Er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad busnes yn dryloyw, yn gadarn ac yn gyson, yn unol â chyfyngiadau'r amgylchedd economaidd sydd ohoni, mae angen i ni ddeall ein Gwasanaeth yn llawn o ran costau, a sicrhau ein bod yn nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddyrannu adnoddau er mwyn sicrhau bod y lefel a'r amrywiaeth o wasanaethau yn cael eu darparu am y gost isaf.</p> <p>Rydym wedi ymgymryd â nifer o ymarferion effeithlonrwydd ar hyd y blynyddoedd, gan arwain at arbedion sylweddol ac effeithlonrwydd o ran gweithrediadau. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion hyn wedi cynnwys edrych ar fanylion sefydliadau eraill mewn perthynas â chymariaethau cost y pen, nac archwilio arferion gorau ym mhob maes gwaith ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.</p> <p>Trwy gynnal ymarferion effeithlonrwydd, bydd hyn yn arwain at ddeall yn llawn y gwasanaeth a ddarparwn, yr hyn yr ydym am ei ddarparu, ac ar ba gost, ac yn ein galluogi o'r herwydd i wneud y penderfyniadau mwyaf effeithiol ynghylch adnoddau, er mwyn sicrhau Gwasanaeth Tân ac Achub cynaliadwy.</p>
----------------------	---

Camau Arfaethedig	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal archwiliad cynhwysfawr o'n gwariant, gan gymharu ag eraill, a sefydlu model blaengynllunio ar gyfer asedau ac adnoddau, fel ei gilydd.
Canlyniadau Disgwyliedig	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnydd gyda chyfranogiad llawn yr Aelodau, ac adrodd am welliannau yn nhermau costau cymharol neu werth am arian. • Bydd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn helpu i siapio'r gwaith o lunio Cynllun Rheoli Asedau cynaliadwy.

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Aethom ati i archwilio ein gwariant a'n trefniadau cyllido ar gyfer ein hasedau trwy ein Grŵp Rheoli Cyfalaf ac Asedau Strategol. Bu i ni sefydlu model blaengynllunio ar gyfer asedau ac adnoddau, fel ei gilydd, sicrhau bod lesioedd yn cyd-fynd â chylchoedd bywyd cerbydau, a dadansoddi'r opsiynau cyllido gorau ar gyfer sicrhau ein fflyd.

Roedd manteision y system yn cynnwys rheoli rhaglenni, llai o alw am gymorth TG ar y safle, a chostau is o ran uwchraddio meddalwedd, cynnal a chadw y system, a threfniadau wrth gefn. Roedd y System Rheoli Asedau hefyd yn galluogi i brisiadau gael eu cynnal ar gyfer eiddo ar lefel tir ac adeiladau, a hefyd ar gyfer asedau o ran cynlluniau, cerbydau a chyfarpar.

Parhaodd y Grŵp Rheoli Cyfalaf ac Asedau Strategol i ystyried ac adolygu'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoli asedau, gan gynnwys y dulliau mwyaf priodol o fenthycu a/neu ariannu ar gyfer prosiectau cyfalaf. Datblygwyd cynllun rheoli asedau diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth hefyd, gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2018. Roedd y Cynllun diwygiedig yn amlinellu ymrwymiad y Gwasanaeth i barhau i reoli ei asedau mewn modd sy'n cyd-fynd â datblygu cynaliadwy. Roedd ein dull o adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau yn seiliedig ar wella ein perfformiad yn barhaus, a chefnogi cyfleoedd cymdeithasol a diogelwch cymunedol, gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

Trwy fabwysiadu'r egwyddorion sydd yn y cynllun ar gyfer Rheoli Asedau, roedd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i ddangos ei fod yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u hoptimeiddio o ran costau oes gyfan. Mae hyn yn cadarnhau bod y gwaith cynllunio a rhaglennu yn effeithlon, a bod opsiynau amgen o ran cost, buddion a safonau gwasanaethau ar gael, gan alluogi Swyddogion Gweithredol a'r Awdurdod Tân i wneud penderfyniadau gwybodus.

Cymeradwyodd y Tîm Arwain Gweithredol grŵp prawf i ystyried materion cynllunio gweithlu. Sefydlwyd Grŵp y Gweithlu Strategol i sicrhau bod gwaith y Gwasanaeth o ran cynllunio a rheoli'r gweithlu yn cefnogi'r amcanion cynllunio strategol, yn gyson ag arfer gorau, ac yn rheoli ei bobl mewn modd costeffeithiol, cynaliadwy, systematig a chydgysylltiedig.

Mae Grŵp y Gweithlu Strategol yn grŵp hanfodol o ran sicrhau bod ymgymryd â gweithgareddau cynllunio a rheoli'r gweithlu yn gyfrifoldeb corfforaethol i ni. Mae'r aelodaeth eang yn hwyluso safbwynt sefydliad gyfan o ran sicrhau bod y gweithlu yn cael ei reoli mewn modd systematig, effeithlon a chydgysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod gennym y bobl gywir yn y rolau cywir sy'n meddu ar y sgiliau cywir, i fodloni'r lefel ofynnol o ran darparu gwasanaethau, a hynny yn y ffordd fwyaf costeffeithiol ar gyfer y defnyddwyr, 'nawr ac yn y dyfodol.

Sicrhaodd y Grŵp hefyd fod y cyfrifoldeb am yr holl weithgareddau o ran cynllunio a rheoli'r gweithlu yn cael eu pennu o fewn y sefydliad, a bod lefelau'r sgiliau a'r cyfrifoldebau yn ddigonol i gyflawni'r canlyniadau gofynnol, yn ogystal â sicrhau bod y llif wybodaeth ar gyfer cynllunio ac adrodd ar waith i adolygu data'r gweithlu a'r risgiau cysylltiedig; gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn sail i waith cynllunio a datblygu'r gweithlu yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i wella ein gwybodaeth am asedau, ein prosesau cynllunio cylch oes cyfan, a'n ffordd o ymdrin â datblygu cynaliadwy, gan addasu i'n hinsawdd newidiol a datblygu ein diwylliant sefydliadol.

Amcan 11

Digideiddio – Defnyddio technoleg i arloesi, cydweithio a grymuso

<p>Rheswm</p>	<p>Mae gennym hanes o gynnal gweithgareddau TG cydweithredol â sefydliadau Sector Cyhoeddus eraill er mwyn arbed costau. Rydym yn cydnabod bod yna ragor o botensial i fabwysiadu technolegau gwybodaeth i gefnogi ein gweithgareddau ac i ad-drefnu rhai systemau meddalwedd presennol.</p> <p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, bydd ein timau Gweithredol, Datblygu Busnes a TG yn ymchwilio i ffyrdd newydd o weithio ac o ddarparu ein gwasanaethau, a hynny yn y Gwasanaeth ac i randdeiliaid allanol, fel ei gilydd; ac yn ceisio gwella ac addasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu trwy annog arloesedd digidol a mwy o fanteisio ar ein hasedau gwybodaeth, a thrwy groesawu technolegau sy'n newid yn gyson.</p> <p>Yn ei dro, bydd cynnal yr ymarferion hyn, yn ogystal ag edrych ar ffyrdd newydd o weithio a chyflwyno ein gwasanaethau, a hynny trwy ddefnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu uwch, yn gwella ein prosesau busnes ac yn sicrhau effeithlonrwydd gweithredu, gan fod o fudd i bersonél y gwasanaeth tân a rhanddeiliaid, fel ei gilydd. Bydd hyn yn arwain at well diogelwch a chadernid ar gyfer y Gwasanaeth, yn ogystal â gwelliant o ran darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Strategaeth Systemau Gwybodaeth newydd. • Defnyddio system Diogelwch Rhag Tân Busnesau wedi'i huwchraddio. • Datblygu gwefan ein Gwasanaeth er mwyn gwella mynediad y cyhoeddus at y sefydliad. • Defnyddio Mewnwyd ddwyieithog newydd. • Caffael system data symudol newydd sy'n cydymffurfio â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd. • Defnyddio Prosiect Cyfathrebu Symudol Rhwydwaith Gwasanaethau Brys Llywodraeth y Deyrnas Unedig. • Dros y pum mlynedd nesaf, parhau â'n hymrwymiad i strategaeth "Cloud First" Llywodraeth y Deyrnas Unedig pa bryd bynnag y byddwn yn adolygu gofynion ein systemau gwybodaeth.

<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu mynediad at y systemau TG gweinyddol a gweithredol. • Gwella dibynadwyedd y systemau TG, a lleihau “amser segur”. • Cynyddu'r defnydd o Wefan y Gwasanaeth. • Lleihau nifer y prosesau busnes a gyflawnir â llaw neu ar bapur. • Cynyddu diogelwch ar gyfer asedau gwybodaeth y Gwasanaeth Tân. • Lleihau gwariant “cyfatebol” ym maes TGCh. • Gwella galluogrwydd data ar gyfer criwiau gweithredol. • Gwella cydweithredu gweithredol. • Sicrhau systemau TGCh mwy cynaliadwy.
--	---

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Er mwyn bodloni ein Hamcan, aethom ati i osod meddalwedd CFRMIS V6.2, Sp1, ac i drosglwyddo data Lleihau Risgiau Cymunedol o un Gweinydd i'r llall, gan alluogi i'r holl drefniadau contractiol, caffael, ariannol, cynnal a chadw, a thrwyddedu gael eu cyfuno mewn un pecyn ar gyfer Diogelwch Rhag Tân Busnesau, Diogelwch Cymunedol a Rheoli Risgiau Gweithredol.

Cychwynnwyd ar y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth TGCh newydd (2017-2022), a oedd yn adlewyrchu syniadau TGCh cyfoes, er enghraifft Technolegau Cwmwl a Hygyrchedd Symudol. Roedd y Strategaeth hefyd yn cydnabod dyheadau perthnasol y sector cyhoeddus, er enghraifft cydweithio er mwyn darparu seilwaith digidol cryf ar gyfer y Gwasanaeth.

Rhoddodd ein contractwyr allanol ddarpariaeth ar waith i gynnal gwefan newydd y Gwasanaeth yn y “cwmwl”, a fydd yn sicrhau diogelwch a chywirdeb y wefan newydd, yn ogystal â chynnig ateb sy'n rhoi mwy o ryddid a chwmpas i'r Gwasanaeth wella profiad y defnyddwyr a swyddogaeth ei bresenoldeb ar-lein.

Bu'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes yn gweithio i gyflwyno System e-Ddemocratiaeth newydd, a fyddai, ar ôl iddi gael ei phrynu, yn cael ei chynnwys yng ngwefan newydd y Gwasanaeth er mwyn symleiddio nifer o brosesau dwys, sy'n cymryd llawer o amser.

Gwnaed cynnydd o ran yr Arddull Corfforaethol newydd ar gyfer y Gwasanaeth, a helpodd i ffurfio a chwblhau golwg a naws gwefan newydd y Gwasanaeth. Datblygwyd nodweddion eraill i'r wefan hefyd, er mwyn gwella'r ymarferoldeb ar gyfer y defnyddwyr.

Amcan 12

Gwella'r ffordd yr ydym yn datrys digwyddiadau gweithredol trwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd

<p>Rheswm</p>	<p>Rydym ni, y Gwasanaeth Tân ac Achub, bob amser wedi ymateb mewn modd cadarnhaol i'r amgylchedd newidiol yr rydym yn gweithredu ynddo, ac wedi addasu er mwyn mynd i'r afael â heriau newydd wrth iddynt godi. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiadau arloesol newydd a datblygiadau technolegol wedi sicrhau bod gennym y potensial i ehangu a gwella'r ffordd y byddwn yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol, a hynny'n sylweddol.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth eisoes wedi croesawu nifer o dechnegau arloesol ar gyfer diffodd tanau, er enghraifft cyfarpar torri e-drolig, sydd wedi gwella diogelwch a gallu gweithredwyr wrth iddynt ymateb i achosion lle mae unigolion wedi cael eu trapio; y defnydd o gerbydau awyr di-griw i gefnogi gweithrediadau; ynghyd â'r system gorchymyn a rheoli a system ddiffodd Cold Cut, sy'n cael eu treialu ar hyn o bryd.</p> <p>Rydym am nodi ymhellach y modd y gall newidiadau i ddyluniad cyfarpar, technegau gweithredu a datblygiadau arloesol newydd ehangu a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer y cyhoedd.</p> <p>Bydd ymgysylltu â thechnoleg newydd a datblygiadau arloesol yn ein galluogi i gyflwyno newidiadau a gwelliannau i helpu i wella diogelwch ein diffoddwyr tân; gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau digwyddiadau gweithredol; lleihau effaith ein busnes a'n gweithrediadau brys ar yr amgylchedd; ac ehangu a gwella'r amgylchedd dysgu ar gyfer ein staff.</p>
<p>Camau Arfaethedig</p>	<p>Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, dywedasom y byddem yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro ac adolygu effeithiolrwydd ein technegau, ein prosesau a'n cyfarpar. • Archwilio pob cyfle i ddysgu oddi wrth ein partneriaid, a chydweithio â nhw. • Cymryd rhan mewn gwaith ymchwil a datblygu, sy'n chwilio ledled sector Tân y Deyrnas Unedig a thu hwnt am syniadau ac atebion. • Ymchwilio i ddatblygiadau newydd o ran technoleg a phrosesau, a chynnal asesiadau a threialon yn unol â hynny.

<p>Canlyniadau Disgwyliedig</p>	<p>Er mwyn ein galluogi i fesur cyflawniad yn erbyn yr amcan hwn, rydym wedi ymrwmo i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro a lledaenu canlyniadau adolygiadau, ymchwiliadau ac ôl-drafodaethau. • Casglu data rheoli perfformiad. • Cywain tystiolaeth am well canlyniadau yn achos digwyddiadau gweithredol ac ymarferion, wedi'i chasglu trwy'r system dysgu gweithredol. • Monitro ein perfformiad ac adrodd arno yn unol â Rhaglen Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
--	--

Yr hyn a wnaethom i gyflawni ein hamcan

Er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn datrys digwyddiadau gweithredol trwy arloesedd a'r defnydd o dechnoleg newydd, rydym wedi parhau i wneud cynnydd amlwg mewn meysydd allweddol. Buom yn cydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd a De Cymru i adnewyddu Offer Anadlu Hunangynhwysol (SCBA).

Roeddem yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda chyflenwyr a gweithgynhyrchwyr i nodi cyfleoedd i ddefnyddio technoleg newydd yn ystod gweithrediadau tân ac achub, gan gynnwys caffael Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) newydd ar gyfer Achub Technegol. Aethom ati hefyd i ddisodli Uned Rheoli Digwyddiadau y Gwasanaeth, ein camerâu a wisgir ar y corff, a'n hunedau glanhau mwg, a arweiniodd at leihau effaith amgylcheddol allyriadau mwg o'n cyfleuster hyfforddi tân carbonaidd yng Nghoed-yr-iarll.

Gwnaeth Grŵp Trawsnewid yr Ardal Rheoli Digwyddiadau gynnydd da wrth ddatblygu cefnogaeth ar gyfer lleoliadau tanau yn y dyfodol, cyfathrebu, a chamerâu fideo a wisgir ar y corff, ac wrth ddisodli'r Uned Rheoli Digwyddiadau.

Bu i ni lwyddo i roi'r setiau Offer Anadlu (BA) Draeger newydd ar waith ym mhob Gorsaf Dân, gan ein galluogi i ddefnyddio telemetreg ar gyfer digwyddiadau lle defnyddir Offer Anadlu. Bydd y cyfarpar newydd yn arwain at well cyfathrebu mewn digwyddiadau gweithredol, ac yn cynorthwyo o ran iechyd, diogelwch a lles personél gweithredol. Cynhaliwyd ôl-drafodaeth ar gyfer y prosiect hefyd, a defnyddiwyd yr holl ddysgu a ddeilliodd o'r broses i lywio arfer yn y dyfodol.

Aethom ati i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno'r Cyfarpar Diogelu Personol Amldefnydd yn llwyddiannus i'n Gorsafoedd Tân.

Mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, dechreuasom ar y broses gwerthuso a chaffael ar gyfer y Cyfarpar Diogelu Personol newydd. Gwnaed gwaith i bennu gofynion yn y dyfodol,

ac i ddatblygu dogfen dendro yn barod ar gyfer y broses gaffael yn y dyfodol, gyda'r nod o gyflwyno'r cyfarpar yn ystod gwanwyn 2019.

Bydd y Cyfarpar Diogelu Personol newydd yn cynnwys y defnyddiau ysgafn anadladwy diweddaraf, a fydd yn sicrhau'r amddiffyniad gorau, gan gadw'r pwysau mor isel â phosibl ar yr un pryd. At hynny, datblygwyd cynllun prosiect gennym a oedd yn cynnwys treialu'r Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod haf 2018.

Rhagor o wybodaeth

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y meysydd y sonnir amdanynt yn y ddogfen hon.

Yn Adran Perfformiad ein gwefan, ceir gwybodaeth am y canlynol:

- Cynlluniau Strategol
- Cynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Cymru
- Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Rydym yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol. I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni trwy ein gwefan, **www.mawwfire.gov.uk**, ein ffonio ar 0370 6060699 neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, Sir Gâr SA31 1SP. Fel arall, gallwch anfon neges e-bost atom i mail@mawwfire.gov.uk

Fersiynau Amgen

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, neu mewn fformat sain, cysylltwch â ni trwy ffonio 0370 6060699 neu drwy anfon neges e-bost i: mail@mawwfire.gov.uk.

Gofyn am Archwiliad Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref

Gallwch wneud cais am archwiliad diogelwch rhag tân yn y cartref ar eich cyfer chi eich hun, ar gyfer perthynas dibynnol neu ar gyfer cymydog, a hynny trwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu trwy fynd i www.mawwfire.gov.uk.

Dilynwch ni ar:

Facebook: facebook.com/mawwfire

Twitter: [@mawwfire](https://twitter.com/mawwfire)

Atodiad 1

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Datganiad Cynnydd

Mae'r Gwasanaeth wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er iddi gael ei chyflwyno, ac roeddem yn croesawu ein dyletswyddau o dan y Ddeddf. Roeddem yn ei ystyried yn gyfle gwych i gynyddu a chryfhau ein gwaith cydweithredol â sefydliadau partner ymhellach, a hynny er mwyn diwallu anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well.

Trwy gyflwyno'r Ddeddf a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sefydlwyd dull gweithredu cyson ledled y chwe Awdurdod unedol, gan leihau dyblygu a rhoi cyfle i bartneriaid gyflawni diben cyffredin trwy wir gydweithrediad er budd ein cymunedau.

Roedd gennym gynrychiolaeth ar lefel Cyfarwyddwyr ar bob un o'n chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â Chadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth ar dri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr un. Ar ben hynny, mae ein Penaethiaid Ymateb yn cynrychioli'r Gwasanaeth ar yr is-grwpiau sy'n eistedd o dan Grwpiau Craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

At hynny, cafodd Amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cynnwys yn ethos y gwasanaethau a ddarparwn er mwyn datblygu a gwella iechyd a lles y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, a hynny er budd ehangach a chynhwysol ein cymunedau.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y staff o'r ddeddfwriaeth, trosglwyddwyd gwybodaeth am y Ddeddf a gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled y Gwasanaeth mewn amryw o fforymau, er enghraifft y Tîm Arwain Gweithredol, Tîm Arwain y Gwasanaeth, Cyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth a Fforymau Ymateb.

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Amcan Gwella a nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022 a 2018-2023, lle yr adroddid yn chwarterol ar y cynnydd trwy gyfarfodydd ein Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu.

Wrth bennu ein Hamcanion Gwella a Llesiant ar gyfer ein Cynlluniau Corfforaethol, roeddem wedi cynnal gweithdai ar gyfer Aelodau'r Awdurdod Tân, Undebau Llafur a Phenaeithiaid Adrannau, a hynny er mwyn annog ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, a sicrhau bod ein Hamcanion yn cyd-fynd â'r Ddeddf.

Aethom ati i sicrhau bod ein Hamcanion Gwella yn cyfrannu at ofynion y Ddeddf Llesiant, gan ddangos yn ein hadroddiadau Perfformiad a Gwelliant chwarterol y modd yr oedd pob un o Amcanion Gwella y Gwasanaeth yn bodloni'r saith Nod Llesiant.

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn cynnwys delweddau sy'n nodi pa Nodau Llesiant y mae ein Hamcanion Gwella yn cyfrannu atynt. Mae hwn hefyd ar gael ar ffurf poster. Mae yna hefyd dabl yn ein Cynllun Corfforaethol sy'n tynnu sylw at y gydberthynas rhwng y Nodau Llesiant a'r Amcanion Gwella.

Enghreiffiau o waith a mentrau a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth ac a gyfrannodd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Buom yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wrth weithredu Cynllun Cyd-ymateb ar y cyd, sydd â'r nod o ddarparu'r ymateb cynharaf posibl i achosion meddygol brys sy'n bygwth bywydau. Ar hyn o bryd mae gennym 18 o orsafoedd cyd-ymateb, a gobeithiwn gynyddu'r nifer maes o law.

Buom yn cydweithio â'r elusen Cariad i sicrhau bod diffibrilwyr awtomatig ar bob un o'n peiriannau rheng flaen.

Arweiniodd y Gwasanaeth ar Brosiect Diffibrilwyr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, sef ymgyrch sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i ddefnyddio diffibrilwyr, a'u lleoliadau yn Sir Benfro. Roedd y Prosiect hefyd yn anelu at gynyddu nifer y diffibrilwyr yn y Sir. Mae gwaith ar gyfer y Prosiect hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro mewn perthynas â gweithredu cytundeb rhannu data; ac aethom ati i gynnal ymarfer darganfod ffeithiau cychwynnol gyda phartneriaid, er mwyn sefydlu eu gofynion o ran rhannu data, ac o ran unrhyw drefniadau cyfredol sydd ganddynt ar waith.

Gosodwyd goleuadau LED ym mhob un o'n Gorsafoedd Tân trwy gynllun Buddsoddi i Arbed. Aethom ati hefyd i osod paneli thermol solar a phaneli ffotofoltäig mewn pum Gorsaf ledled y Gwasanaeth, ac mae'r rhain yn parhau i gael eu cynnwys ym mhob prosiect adeiladu neu adnewyddu newydd.

Buom yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i gyflwyno rhaglen weithgareddau llawn hwyl yn ystod gwyliau'r Pasg ar gyfer plant 12-16 oed.

Mae'r modd y mae'r Gwasanaeth yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn sicrhau eu bod yn cael addysg, hyfforddiant ac ymyrraeth, gan ddefnyddio modelau rôl cadarnhaol i helpu i'w cadw nhw, yn ogystal â'u cymunedau, yn ddiogel. Yn ystod 2017-18, ymgysylltodd y Gwasanaeth â thros 41,000 o blant trwy ein rhaglen addysg ar gyfer ysgolion, ymweliadau â gorsafoedd, digwyddiadau a chyrsiau ymyrraeth arbenigol i bobl ifanc.